Rhan I: Disgrifiad o'r Safle

Ochr arall: Nodweddir Castell Caernarfon, a saif ar lan afon Seiont, gan dyrrau onglog a muriau o gerrig sydd wedi'u gosod mewn haenau o liwiau.

Uchod: Mae'r gwaith cadwraeth yn y castell wedi cynnwys sefydlogi'r eryr a gerfiwyd o garreg yr enwyd Tŵr yr Eryr ar ei ôl.

Rhan 1: Disgrifiad o'r Safle

Castell Biwmares

B1.1 Gwybodaeth Gyffredinol

B1.1.1 Lleoliad

Gwlad: Cymru, y Deyrnas Unedig
Awdurdod lleol: Cyngor Sir Ynys Môn
Cyfeirnod grid cenedlaethol SH607762: Hydred 4° 5' 19" Gorll: Lledred 53° 15' 53"Gog.

B1.1.2 Crynodeb o'r Disgrifiad

Lleolir Biwmares ar arfordir de-ddwyreiniol Ynys Môn, yn agos at ben gogleddol Afon Menai a bron yr un mor bell oddi wrth Gaernarfon a Chonwy. Mae'r castell ym mhen gogleddol y dref, tua 165 o lathenni (150m) o'r môr. Sefydlodd y Brenin Edward I y castell a'r dref ym 1295 i ymestyn ei reolaeth dros y sir newydd, Ynys Môn, ac Afon Menai sy'n rhannu'r ynys a'r tir mawr.

B1.2 Gwybodaeth Ddiwylliannol

B1.2.1 Archeoleg

I raddau helaeth mae adeiladwaith y castell fel yr oedd pan y'i hadeiladwyd ym 1295–1330. Dymchwelwyd yr adeiladau domestig o fewn y ward fewnol; llenwyd rhan ddwyreiniol y ffos ac nid yw doc y castell yn gysylltiedig â'r môr bellach. Mae waliau'r ward allanol yn dal i sefyll at eu huchder llawn. Mae'r ddau borthdy a waliau'r ward fewnol yn dal i fod cymaint a'r un mor uchel ag oeddynt cyn i'r gwaith adeiladu orffen ym 1330.

B1.2.2 Hanes

Efallai i Edward I ddewis y safle ar gyfer y castell ym mis Awst 1283 ond dim ond pan wrthryfelodd y Cymry ym 1294 yr aed ati i'w adeiladu. Darostyngodd Edward y gwrthryfel erbyn mis Ebrill 1295, symudodd boblogaeth gyfan tref Gymreig bwysig Llanfaes o'u cartrefi i anheddiad newydd yn Niwbwrch, yn ne'r ynys, a gorchmynnodd adeiladu ei gastell newydd.

O'r dechrau ymddiriedwyd y gorchwyl o reoli'r prosiect i Meistr James of St George, a oedd eisoes yn dal swydd Meistr Gwaith y Brenin yng Nghymru. Aeth y gwaith yn ei flaen yn gyflym — gyda mwy na 2,000 o weithwyr ar y safle — ac, erbyn Chwefror 1296, roedd waliau'r ward fewnol o leiaf 20 troedfedd (6m) o uchder. Fodd bynnag ar ôl 1298, pan ddargyfeiriwyd adnoddau — gan gynnwys Meistr James — i'r Alban, ni wnaed fawr ddim gwaith arall ym Miwmares am wyth mlynedd.

Ym 1306 nododd cwnstabl newydd, sef John of Metfield, gyflwr anghyflawn y castell. Olynodd Meistr Nicholas de Derneford Meistr James a chodwyd y waliau mewnol ac allanol at lefel mur canllaw. Ni chyrhaeddodd y tyrau a'r porthdai mewnol yr uchder y bwriedid iddynt ei gyrraedd.
Ni orffennwyd Porth Llanfaes ychwaith ond ychwanegwyd barbican i atgyfnerthu porthdy'r de. Gorffennodd y gwaith ym 1330 ac ni wnaed fawr ddim ar y castell ar wahân i waith cynnal a chadw yn ystod y cyfnod ar ddiwedd yr Oesoedd Canol.

Gwarchaewyd y castell yn ystod gwrthryfel Glyn Dŵr ac mae'n bosibl ei fod yn nwylo'r Cymry o 1403–5.

Erbyn 1609 roedd y castell wedi'i ddosbarthu'n swyddogol fel adeiladwaith a oedd wedi dirywio'n llwyr. Bu'n ganolfan i luoedd y Brenin yn ystod y Rhyfel Cartref ond ildiodd i'r Senedd ym 1646. Daeth y castell i feddiant y teulu Buckley ym 1807.

Ym 1925 dododd Syr Richard Williams-Bulkeley y castell yng ngofal y wladwriaeth o dan weithred gwarchodaeth. Ailgloddiodd y Comisiynwyr Gwaith (un o ragflaenwyr Cadw) ran fawr o'r ffos a chlirio'r llystyfiant a oedd yn tyfu ar y waliau. Mae gwaith i ddiogelu'r adeiladwaith wedi parhau hyd heddiw.

Er bod Edward yn bwriadu sefydlu bwrdeistref gerllaw y castell o'r cychwyn, ni ddarparwyd muriau tref ar ei chyfer ar y dechrau. Rhoddwyd caniatâd i godi muriau ym 1414 ar ôl i'r fwrdeistref gael ei hailfeddiannu ar ôl gwrthryfel 1403, ond dim ond un darn 45 troedfedd (15m) o hyd sydd wedi goroesi — heneb gofrestredig y tu ôl i Rif 44 Stryd yr Eglwys. Ni chynhwysir y waliau yn Safle Treftadaeth y Byd.

B1.2.3 Peirianneg Filwrol a Phensaernïaeth

Nid oedd gan y safle a ddewiswyd ar gyfer Castell Biwmares yr amddiffynfeydd naturiol a oedd gan Harlech neu Gonwy. Ar y llaw arall gellid ei gyrraedd yn uniongyrchol o'r môr ar dir gwastad ac nid oedd unrhyw nodweddion ffisegol i gyfyngu ar waith datblygu. Byddai'r safle yn caniatáu i'r Brenin a Meistr James of St George gynllunio'r castell consentrig mwyaf datblygedig yng Nghymru. Byddai pedair llinell o amddiffynfeydd i gyd:

- Roedd y ward fewnol a oedd fwy neu lai yn sgwâr ac a gynhwysai adeiladau domestig, sydd wedi'u gostwng i lefel y ddaear, wedi'i hamgylchynu gan lenfur 15.5 troedfedd (4.7m) o drwch, ac roedd ganddi dramwyfa fur fewnol ddi-dor. Ymgorfforai ddau borthdy â phâr o dyrau ar eu pennau, pedwar tŵr cornel crwn a dau dŵr siâp D canolog. Mae'r llenfur yn 36 troedfedd (11m) o uchder ond nid oes ganddo'r creneliadau cynlluniedig uwchlaw'r rhodfa fur. Byddai pob un o'r tyrau wedi bod yn uwch a byddai tyredi crwn wedi bod uwchlaw eu toiau. Wrth wraidd y cynllun amddiffynnol roedd dau borthdy — un yn y gogledd ac un yn y de. Bwriedid iddynt fod yn fersiynau mwy o faint o'r Porthdy Mawr yn Harlech. Ar lefel y ddaear roedd y prif fynedfeydd i'r castell, pob un wedi'i lleoli mewn tramwyfa rhwng y ddau dŵr. Amddiffynnid tramwyfa'r porth gan gyfres o rwystrau — sef pâr o ddrysau a agorai tuag allan a oedd wedi'u cau yn dynn gan far tynnu, dau borthcwlis a phâr o ddrysau a agorai tuag i mewn. Rhwng pob rhwystr roedd lle bach wedi'i warchod gan gloerdyllau saethau a thyllau llofruddio, lle y gellid dal unrhyw un a oedd yn mynd i mewn neu ymosod arno. Roedd y lle nesaf yn fwy o faint ac fe'i goruchwylid o ystafelloedd porthorion ar y naill ochr a'r llall ac fe'i gwarchodid gan dyllau llofruddio. Arweiniai'r ystafelloedd hyn yn eu tro i'r dde ac i'r chwith i ddwy set o risiau troellog, wedi'u gosod yn eu tyrau eu hunain, a godai i'r ystafelloedd uwchben. Amddiffynnai pâr arall o ddrysau a phorthcwlis arall ben y dramwyfa i'r ward fewnol. Dim ond y tyrau i borthdy'r gogledd a ddaeth yn agos at gyrraedd eu huchder arfaethedig o 60 troedfedd (18.3m) ac ni chododd rhan fewnol porthdy'r de erioed yn uwch na lefel y sylfeini. Ychwanegwyd barbican i borthdy'r de ym 1306 neu ar ôl y dyddiad hwnnw i ddarparu rhwystr arall ar gyfer unrhyw dresmaswr.
- Mae'r ward allanol yn ddarn amgylchynol o dir agored tua 60 troedfedd (18.3m) o led, a reolid o furfylchau'r llenfur mewnol.

- Mae llenfur is a llai sylweddol yn amgylchynu'r ward allanol. Mae iddo gynllun wythonglog a 12 tŵr crwn o wahanol gynllun gyda gofod gwahanol rhyngddynt. Adeiladwyd dau borthdy, pob un â phâr o dyrau ar ei ben. Mae tramwyfeydd eu pyrth yn naill ochri i'r pyrth yn y porthdai mewnol. Amddiffynnid mynedfa'r de, sef y Porth ger y Môr gan bont godi ac roedd gan ei thramwyfa borth ddau dwll llofruddio a phâr o ddrysau a arweiniai i'r ward allanol. Mae porthdy'r gogledd, sef Porth Llanfaes, mor anghyflawn fel ei bod yn anodd dweud sut y byddai wedi edrych yn ei ffurf derfynol. Mae'n debyg y byddai ei dyrau wedi amddiffyn tramwyfa borth debyg i'r Porth ger y Môr, ac y byddai amddiffynfeydd tebyg wedi bod ganddo.
- Amgylchynai ffos llawn dŵr tua 70 troedfedd (21m) o led y castell cyfan ond mae rhan ohoni wedi'i llenwi erbyn hyn. Roedd y llain a amgaeid gan y ffos yn 127 o lathenni wrth 119 o lathenni (116m wrth 109m).

Bwriedid i wahanol uchderau'r ddau lenfur a lleoliadau'r cloerdyllau saethau ddarparu meysydd saethu i reoli'r holl dir o fewn cyrraedd croesfwâu y tu hwnt i'r ffos. Ar ben hynny gallai amddiffynwyr ar y llenfur mewnol reoli unrhyw ran o'r llenfur allanol pe câi ei golli i unrhyw elyn.

Lleolid doc llanwol, a ganiatâi i longau o hyd at 40 o dunelli gael eu dadlwytho, o fewn muriau a adeiladwyd allan o'r llenfur allanol, a chaniatâi i'r garsiwn gynnal lefel y dŵr yn y ffos. Fe'i hamddiffynnid ar un ochr gan gaincfur a elwid yn Gunner's Walk. Dengys olion sylfeini y bwriedid i fur y dref amddiffyn ochr arall y doc. Cynhwysai'r Gunner's Walk felin ŷd hefyd a fyddai wedi cyfrannu at allu'r castell i wrthsefyll gwarchae estynedig.

Fodd bynnag nid oes unrhyw olwg o ffynnon ar gyfer dŵr yfed o fewn y castell na system ar gyfer casglu dŵr glaw. Ni ddarganfuwyd eto ym mha ffordd y byddai'r garsiwn wedi'i gyflenwi â dŵr.

Amlygai Castell Biwmares y beirianneg filwrol fwyaf modern ar ddiwedd y 13eg ganrif. Ar ben hynny darparai ganolfan ar gyfer atgyfnerthu grym y Saeson ar Ynys Môn ac ar gyfer rheoli Afon Menai. Fe'i hadeiladwyd ar adeg pan oedd y mwyafrif o nodau Edward yng Ngwynedd wedi'u cyrraedd ac felly ni chwblhawyd y castell erioed.

Bwriedid i bensaernïaeth y castell godi arswyd ar y Cymry a rhoi hyder i'r ymsefydlwyr Seisnig yn y fwrdeistref. Yn ei gyflwr anghyflawn mae'n heneb drawiadol er nad yw mor ysblennydd ag y bwriedid yn wreiddiol am na chyrhaeddodd ei uchder llawn erioed.

Byddai'r ddau borthdy mewnol wedi darparu pedair ystafell hunangynhwysol o gynllun tebyg i'r ddwy yn Harlech. Yn wynebu'r ward fewnol, yr oedd yn llai hanfodol ei hamddiffyn, dengys y rhes o ffenestri bwaog ar lawr cyntaf Porthdy'r Gogledd ansawdd y bensaernïaeth a fwriedid ar gyfer y ddau borthdy. Dengys y capel cromennog, a leolir yn un o'r tyrau D, gynllun mwy cain. Dangoswyd dyfeisgarwch ymarferol wrth adeiladu'r tramwyfeydd yn y muriau a'r rhesi o dai bach o fewn y llenfur mewnol. O ran y trefniadau preswyl, byddai Biwmares wedi cynnig amrywiaeth ehangach o ystafelloedd i fodloni anghenion y llys nag unrhyw gastell arall yng Ngogledd Cymru.

Dangosir ansawdd y gwaith adeiladu ym Miwmares yn y modd y goroesodd y castell 400 o flynyddoedd o esgeulustod. Adeiladwyd y mwyafrif o'r muriau o Galchfaen Carbonifferaidd o ardal Penmon ar Ynys Môn, wedi'u sgwario'n fras ac wedi'u gosod mewn rhesi gan amlaf. Roedd conglfeini, capanau drysau, patrymau ac ati at ei gilydd wedi'u gwneud o dywodfaen, a ddaeth o Benmon hefyd yn ôl pob tebyg. Defnyddiwyd calchfaen mwy cywasgedig ar gyfer y manylion mwy cain yn y capel.

B1.3 Amgylchedd

B1.3.1 Daeareg a Thopograffeg

Saif Castell Biwmares ar wastadedd arfordirol, yn agos at lefel y môr — y *beau mareys* neu'r 'gors hardd' a roddodd i'r lle ei enw. Fe'i sefydlwyd ar glai clogfaen ac ef yw'r unig un o'r cestyll yng Ngwynedd nas adeiladwyd ar garreg.

B1.3.2 Llystyfiant a Bywyd Gwyllt

Cyhoeddodd Cyngor Sir Ynys Môn Strategaeth Tirwedd Ynys Môn, sy'n nodi cymeriad tirwedd nodedig y llain arfordirol yn cyffinio â phen dwyreiniol Afon Menai, ardal a nodweddir gan lethrau coediog ar hyd yr afon. Lleolir Biwmares tua ffin ogleddol yr ardal hon, lle y mae'r tir yn is ac y ceid morfeydd yn wreiddiol.

Cyhoeddodd y cyngor Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn 2002. Mae'r cynllun hwn yn nodi'r cynefinoedd a'r rhywogaethau bywyd gwyllt a geir yn yr ardal a, lle y bo hynny'n briodol, mae'n disgrifio'r camau a gymerir i'w diogelu.

Gerllaw Castell Biwmares, mae'r Afon Menai islaw'r marc penllanw cymedrig yn Ardal Gadwraeth Arbennig arfaethedig (cSAC). Dewiswyd cSAC Y Fenai a Bae Conwy oherwydd ei phlanhigion a'i hanfeiliaid môr a rhynglanw. Yn union i'r gogledd-ddwyrain o'r castell, mae'r ardal rhwng y marc penllanw cymedrig a'r marc distyll cymedrig wedi'i phennu fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig SoDdGA Glannau Penmon-Biwmares oherwydd ei nodweddion rhynglanw a geomorffolegol. Mae'r corstir blaenorol wedi diflannu ac mae ardal hamdden a elwir yn 'The Green' bellach wedi'i lleoli rhwng y castell a'r môr. Mae Afon Menai yn Warchodfa Natur Forol arfaethedig.

Mae'r ardal o barcdir i'r gogledd o'r castell, wedi'i dynodi fel Parc Baron Hill SoDdGA oherwydd y cennau sy'n tyfu ar ei choed aeddfed. Yn ogystal â bod yn safle pwysig ar gyfer bywyd gwyllt, mae'r parcdir hwn yn nodwedd bwysig o ran tirwedd yr ardal ac yn darparu lleoliad bugeiliol ar gyfer y castell.

B1.3.3 Tirwedd Hanesyddol

Mae Castell Biwmares yn cyffinio â pharc ceirw Baron Hill sy'n dyddio o'r 18fed ganrif ac fe'i lleolir o fewn tirwedd o bwysigrwydd hanesyddol (*Cofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru:* Ardal Penmon). Mae'r llwyfandir arfordirol yn dangos parhad mewn defnydd tir o ddiwedd y cyfnod cynhanesyddol ac, erbyn diwedd y 13eg ganrif, roedd Llanfaes yn dref a phorthladd llewyrchus. Gadawyd y dref heb neb yn byw ynddi yn dilyn symud y boblogaeth i Niwbwrch.

Sefydlwyd bwrdeistref newydd, rydd Biwmares i'r de o'r castell. Daeth y fwrdeistref yn brif borthladd a chanolfan ddosbarthu ar gyfer gogledd Cymru hyd at y 18fed ganrif. Nodwyd esgyniad teulu Bulkeley gan dir caeëdig parc ceirw Baron Hill. Prif elfennau'r dirwedd o ran lleoliad y castell yw'r dref, y parc a'r tir gwyrdd, a leolir ar yr hen gorstir.

B1.4 Diddordebau

B1.4.1 Perchenogaeth a Chyfrifoldeb Gofal

Mae rhydd-ddaliad Castell Biwmares yn perthyn i Syr Richard Williams-Bulkeley o Baron Hill, Biwmares. Mae'r castell yn heneb gofrestredig, yn adeilad rhestredig Gradd I ac yn rhan o Safle Treftadaeth y Byd. Cadw, un o asiantaethau gweithredol Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n bennaf gyfrifol am ofalu am yr heneb. Yr eithriad yw'r ardal lle y ceir y ffos nas cloddiwyd i'r dwyrain o'r castell. Lleolir maes chwarae cyhoeddus yn y fan hon a Chyngor Tref Biwmares sy'n gyfrifol amdano.

Map 1

Ynys Môn, Sir Gaernarfon a Sir Feirionydd o dan Edward 1

Diagram 1.2.2

Ffynonellau Llafur



Castell a Muriau Tref Caernarfon

CA1.1 Gwybodaeth Gyffredinol

CA1.1.1 Lleoliad

Gwlad: Cymru, y Deyrnas Unedig
Awdurdod lleol: Cyngor Gwynedd
Cyfeirnod grid cenedlaethol SH477627 (Castell): Hydred 4° 16' 32" Gorll: Lledred 53° 8' 21" Gog

CA1.1.2 Crynodeb o'r Disgrifiad

Lleolir Castell Caernarfon a'r dref furiog ar frigiad caregog rhwng aber dwy afon, sef afon Seiont ac afon Cadnant ar Afon Menai. (Mae afon Cadnant wedi'i chuddio bellach mewn ffos.) Sefydlodd y Brenin Edward I y castell a'r dref ym 1283 i gadarnhau ei fuddugoliaeth dros Llywelyn, Tywysog Cymru, a goresgyniad Gwynedd. Datblygodd Caernarfon yn ganolfan lywodraethol ar gyfer gogledd Cymru a hi oedd tref sirol Sir Gaernarfon, un o'r tair sir newydd a sefydlwyd gan y Saeson.

CA1.2 Gwybodaeth Ddiwylliannol

CA1.2.1 Archeoleg

Nid oes unrhyw beth i'w weld o'r castell mwnt a beili yng Nghaernarfon, a ddechreuwyd tua 1090 gan y Normaniaid, nac o unrhyw adeiladau a godwyd gan Dywysogion Gwynedd rhwng tua 1115 a 1283.

Mae'r llawrgynllun a'r rhan fwyaf o'r olion sy'n sefyll y gellir eu gweld heddiw yn perthyn i'r castell a ddechreuwyd ym 1283 gan Edward I. Yn y 19eg ganrif adnewyddwyd y grisiau a physt y grisiau a wnaed o gerrig mewn nifer o'r tyrau ac adferwyd y murfylchau. Adferwyd Tŵr y Siambrlen, cwblhawyd pen Tŵr y Ffynnon a gosodwyd toiau a lloriau newydd yn Nhŵr y Frenhines. Symudwyd olion y twmpath pridd yn y ward uchaf a'r adeiladau a oedd wedi tresmasu ar Ffos y Dref hefyd.

Mae gwaith arall a wnaed yn dyddio o 1908–13 pan atgyweiriwyd Tŵr yr Eryr, y Tŵr Du a'r Tŵr Gwylio ac adnewyddwyd to a lloriau Tŵr y Frenhines unwaith eto.

Dechreuwyd ar furiau'r dref a llawrgynllun y dref furiog ym 1283 hefyd. Yr unig ychwanegiad pwysig oedd Capel y Santes Fair a adeiladwyd i mewn i gornel gogledd-orllewinol mur y dref. Fodd bynnag newidiwyd Porth y Dwyrain (a adwaenid hefyd fel yr 'Exchequer Gate' neu'r Porth Mawr), Porth y Gorllewin (neu 'Water Gate' neu Borth yr Aur) a Thŵr 8 i ddarparu ystafelloedd mewn canrifoedd diweddarach. Adeiladwyd neuadd tref Caernarfon dros Borth y Dwyrain ym 1767 — ond fe'i symudwyd yng nghanol yr 20fed ganrif — a rhoddwyd i fwa'r porth ei ffurf bresennol ym 1833. Torrwyd pum twll trwy'r muriau i ddarparu ar gyfer y cynnydd mewn lefelau traffig mewn blynyddoedd diweddarach.

Symudwyd bythynnod, a oedd wedi'u hadeiladau yn y ffos, rhwng 1917 a 1963 i ddod â thu allan muriau'r dref i'r golwg.

CA1.2.2 Hanes

Dewisodd Edward I safle a fuasai'n safle caerog cyn hynny ar gyfer ei gastell mwyaf trawiadol yng Nghymru a'r dref furiog sy'n gysylltiedig ag ef. Bu caer Rufeinig, *Segontium*, ychydig i mewn i'r tir, ac

adeiladodd y Normaniaid gastell ar lan ogleddol afon Seiont. Bu'r castell yn nwylo'r Cymry o tua 1115 hyd buddugoliaeth Edward ym 1283.

Fel Meistr Gwaith y Brenin yng Nghymru, Meistr James of St George oedd yn gyfrifol am y rhaglen adeiladu ac am y gwaith yng Nghaernarfon. Am fod y gwaith o gynllunio ac adeiladu'r tri phrif gastell — sef Caernarfon, Conwy a Harlech — yn ogystal â gwaith arall yng Ngwynedd i gyd yn mynd rhagddo ar yr un pryd, mae'n debyg bod gan James nifer o gynorthwywyr.

Walter of Hereford fu'r prif saer maen o 1295 hyd 1308 ac mae'n bosibl ei fod wedi'i gyflogi yng Nghaernarfon cyn hynny. Henry of Ellerton oedd yn gyfrifol am y gwaith a wnaed ar ôl i Walter farw.

Roedd y gwaith o adeiladu'r castell a muriau a phyrth y dref yn mynd rhagddo ym 1283. Erbyn 1292 mae'n debyg bod muriau'r dref a'r ddau borth wedi'u cwblhau ac roedd muriau a thyrau allanol y castell yn wynebu Afon Seiont wedi'u codi'n eithaf uchel.

Roedd clostir cyflawn ac amddiffynadwy wedi'i ddarparu ar gyfer y fwrdeistref newydd yn ystod y cyfnod adeiladu cyntaf (1283–92). Roedd llai o frys yn gysylltiedig ag ochr ogleddol y castell, a wynebai'r dref furiog. Roedd y ffos rhwng y castell a'r dref wedi'i chwblhau ond dim ond rhannau isaf y waliau a oedd wedi'u hadeiladu.

Yn ystod y cyfnod hwn roedd Caernarfon wedi'i sefydlu fel y ganolfan lywodraethol ar gyfer gogledd Cymru ac fel tref sirol Sir Gaernarfon, un o'i thair sir gyfansoddol. Ar ôl 1292 dargyfeiriwyd adnoddau'r brenin ar gyfer gwaith rywle arall a gostyngwyd lefel y gwariant ar y castell yn fawr.

Ym 1294 synnwyd Edward gan wrthryfel eang ac agored Madog ap Llywelyn, a gymerodd y teitl 'Tywysog Cymru'. Dinistriwyd bron hanner y muriau gan y Cymry, cymerwyd y castell o'r tu mewn i'r dref a llosgwyd popeth y gellid ei losgi.

Gostegwyd y gwrthryfel a dechreuodd ail gyfnod o adeiladu (1295–1330) pan aed ati i ailadeiladu muriau'r dref ym 1295. Ar ôl hynny cwblhawyd amddiffynfeydd gogleddol y castell yn ystod y pum mlynedd nesaf. Wedyn cafwyd bwlch arall o dair blynedd pan fu Edward I yn ymgyrchu yn yr Alban. O 1304 hyd 1330 parhaodd y gwaith fel bod adeiladwaith y castell fwy neu lai yn ymdebygu i'r hyn y gellir ei weld heddiw. Mae'n amlwg y bwriedid gwneud rhagor o waith fel y dangosir gan y muriau sylfaen a Phorth y Frenhines sy'n anghyflawn.

Parhaodd Caernarfon fel bwrdeistref Seisnig yn unig tan y Ddeddf Uno ym 1536 (Statud 27 Harri VIII c.26), pan ddiddymwyd y gwahaniaethau cyfreithiol rhwng deiliaid Cymreig a Seisnig Harri VIII. Nid oedd y castell wedi bod dan warchae ers Gwrthryfel Glyn Dŵr (1403 a 1404) ac roedd heddwch yng Nghymru wedi arwain at ei esgeuluso. Dangosodd adroddiadau ym 1538 a 1620, er bod y gwaith maen yn gadarn, fod toeau a lloriau y tu mewn i'r tyrau wedi dirywio ac, mewn rhai achosion, eu bod wedi dymchwel.

Yn ystod y Rhyfel Cartref (1642–48) garsiynwyd y castell ar gyfer y Brenin Siarl I a newidiodd ddwylo dair gwaith. Ym 1660 rhoddwyd gorchmynion i ddymchwel y castell a gwerthu'r deunyddiau. Er i'r dref groesawu hyn, ni chyflawnwyd y gorchmynion erioed.

Dechreuodd y chwyldro diwydiannol effeithio ar Gaernarfon ar ddechrau'r 19eg ganrif. Dengys map John Wood dyddiedig 1834 y 'cei llechi' ar lan afon Seiont wrth ochr y castell a 'rheilffordd' o'r chwareli llechi yn Sir Gaernarfon.

Ym 1815 roedd Iarll Uxbridge, sef Cwnstabl Castell Caernarfon, wedi mynegi diddordeb mewn prynu'r castell oddi wrth y Goron. Gorchmynnodd Cyllid y Comisiynwyr Coedwigoedd, Fforestydd a Thir i arolwg gael ei gynnal a gofnododd fod cyflwr y strwythur at ei gilydd yn adfeiliedig a bod tu mewn y castell yn cael ei ddefnyddio at sawl diben. Penderfynodd y Comisiynwyr na ddylid ei werthu ond ni chymerwyd unrhyw gamau nes y gofynnwyd i'r pensaer, Anthony Salvin, ymweld â'r castell a chyflwyno adroddiad ym 1845. O fewn chwe mis roedd gwaith atgyweirio ar raddfa fawr wedi'i awdurdodi.

Ymddengys mai pryder ynghylch diogelwch y cyhoedd oedd y rheswm gwreiddiol dros y gwaith atgyweirio ond bu Castell Caernarfon yn ffodus o ran y pensaer a ddewiswyd i ymgymryd â'r gwaith hwnnw. Salvin oedd un o benseiri mwyaf hyddysg y dydd ac roedd yn arbenigwr ym maes pensaernïaeth filwrol ganoloesol. Canolbwyntiodd ar atgyweirio ac atgyfnerthu'r gwaith maen, gan

adael y gwaith atgyweirio i'w olynwyr. Fodd bynnag ni wnaed fawr ddim tan 1870, pan benodwyd Syr Llewelyn Turner yn Ddirprwy Gwnstabl. Yn ystod y 31 o flynyddoedd nesaf symudodd Turner dwmpath mawr yn y ward uchaf (gall fod mai'r twmpath hwn oedd mwnt y castell Normanaidd cynharach), adferodd Dŵr y Frenhines, Tŵr y Siambrlen a Thŵr y Ffynnon a Phorth y Brenin, atgyweiriodd Borth y Frenhines ac ailosododd y mwyafrif o'r murfylchau a'r tramwyfeydd wal. Ar ben hynny llwyddodd i gael gwared â'r mwyafrif o'r tresmasiadau a wnâi du allan muriau'r castell yn anniben. Roedd wedi llwyddo i wneud hyn i gyd heb beri i'r Goron fynd i unrhyw gost trwy ddefnyddio'r incwm o ffioedd mynediad i'r cyhoedd a chodi tanysgrifiadau yn lleol.

Dangosodd arolwg ym 1906 fod angen adnewyddu rhywfaint o waith cynnar Turner. Ym 1908 daeth y castell o dan reolaeth y Swyddfa Waith, sef yr adran o'r llywodraeth a oedd yn gyfrifol am bob heneb yng ngofal y wladwriaeth. Barn yr adran hon oedd ei bod yn well ymgymryd â gwaith atgyweirio ac atgyfnerthu na gwaith adfer a dyma fu'r athroniaeth a ddilynwyd hyd heddiw.

Ers 1908 mae Castell Caernarfon wedi'i gynnal a'i gadw gan y wladwriaeth fel heneb ac mae wedi mynd trwy nifer o newidiadau gweinyddol nes i'r cyfrifoldeb drosto gael ei drosglwyddo i Cadw, un o asiantaethau gweithredol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Yn ystod yr 20fed ganrif trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am ofalu am y rhan fwyaf o furiau'r dref i'r un dwylo ac roedd nifer fawr o adeiladau diweddarach a safai yn erbyn y muriau wedi'u clirio erbyn 1963.

Gan mai'r bwriad oedd enwi Caernarfon yn 'brifddinas' gogledd Cymru, roedd Castell Caernarfon yn arbennig o bwysig i'r frenhiniaeth. Ganed unfed plentyn ar ddeg Edward I, sef Edward Caernarfon, yn y castell anghyflawn ym 1284 ac fe'i crëwyd yn Dywysog Cymru mewn seremoni yn Lincoln ym 1301. Arwisgwyd Tywysogion Cymru diweddarach yng Nghaernarfon ym 1911 a 1969.

CA1.2.3 Peirianneg Filwrol a Phensaernïaeth

Y Castell

Dibynnai pob un o'r cestyll sydd bellach yn ffurfio Safle Treftadaeth y Byd ar fynediad o'r môr. Yng Nghaernarfon dim ond lle cyfyngedig a oedd rhwng afon Seiont ac afon Cadnant. O fewn y safle roedd mwnt Normanaidd a sefydlwyd gan Hugh, Iarll Caer oddeutu 1090. Pennodd y mwnt siâp y ward uchaf ac nis symudwyd nes iddo gael ei lefelu ym 1872. (Mae'n debyg nad dyna oedd bwriad Meistr James a'i dîm am fod y tyrau yn y ward uchaf wedi'u cynllunio i gyd-fynd â'r lefelau daear Normanaidd.)

Er bod safle 191 o lathenni (175 m) o hyd ar gael, nid oedd yn fwy na 78 o lathenni (71m) o led yn unman. Felly nid oedd digon o le i ddatblygu cynllun consentrig llawn, er bod yr egwyddor wedi'i sefydlu'n gadarn erbyn y 13eg ganrif. Ar ben hynny gellid edrych i lawr ar y safle o dir uchel ar yr ochr arall i afon Seiont ac felly byddai llenfur allanol is yn aneffeithiol.

Yr ateb oedd adeiladu un llenfur uchel a chadarn iawn — o leiaf 12 troedfedd (3.7 m) o drwch ar yr ochr a oedd yn wynebu'r afon — a thyrau ffasedog anferth i ganiatáu saethu o bob tu o ddwy lefel o dyllau saethau o leiaf. O fewn y llenfur, gallai'r garsiwn symud rhwng tyllau saethau trwy dramwyfeydd wal mewnol, fel arfer ar ddwy lefel. Mewn cyfyngder byddai'r tyrau ar wahân yn troi'n geyrydd hunangynhwysol.

Roedd y brif fynedfa i'r castell ar draws pont godi dros y ffos eang a dorrwyd o'r graig a wahanai'r castell a'r dref. Arweiniai'r bont godi at Borth y Brenin oedd â phâr o dyrau ar ei ben. Fe'i hamddiffynnid gan bum drws, chwe phorthcwlis gyda thyllau saethau a thyllau llofruddio uwchben. Pe bai wedi'i gwblhau byddai wedi bod tro ar ongl sgwâr i mewn i dramwyfa lai o faint ac ail bont godi i'r ward isaf hefyd. Byddai strwythur amddiffynnol yn cysylltu Porth y Brenin â Thŵr y Siambrlen gyferbyn wedi gwahanu'r wardiau uchaf ac isaf (cynhwysai'r olaf y mwnt Normanaidd). Byddid wedi cyrraedd ail borth â phâr o dyrau ar ei ben, sef Porth y Frenhines, yn syth o'r afon trwy ddefnyddio esgynfa a phont droi.

Ceir saith tŵr unigol mawr — sef Tŵr yr Eryr, Tŵr y Frenhines, Tŵr y Siambrlen, y Tŵr Du, Tŵr y Gogledd-Ddwyrain, Tŵr y Granar, a Thŵr y Ffynnon — a dau dŵr llai o faint — sef tŵr gwylio yn edrych i fyny'r afon a thŵr seston lle y cesglid dŵr glaw. Cynhwysai pob un o'r tyrau mwy o faint ddwy neu dair prif ystafell ganolog ac eid i mewn i rai trwy ragystafelloedd ar wahân ar y llawr gwaelod. Mae'r rhagystafell yn nhŵr yr Eryr yn arwain at gilborth hefyd. Bwriedid i'r cilborth arwain at borth dŵr amddiffynedig a doc ar gyfer cychod yn dod â nwyddau i gilborth wrth waelod Tŵr y Ffynnon.

Safai nifer o adeiladau domestig ar hyd tu mewn llenfur y de. Y neuadd fawr oedd yr un mwyaf, ac roedd ganddi ei chilborth ei hun a grisiau i lawr at yr afon. Rhoddai ffynhonnau a suddwyd o dan Dŵr y Ffynnon a Thŵr y Granar gyflenwadau da o ddŵr yfed.

Fel darn o beirianneg filwrol, mae'n amlwg bod Castell Caernarfon yn effeithiol. Ar ôl ei gwblhau llwyddodd i wrthsefyll dau warchae yn ystod yr Oesoedd Canol, mewn un achos gyda garsiwn o 28 o ddynion yn unig. Fodd bynnag, o'r cychwyn cyntaf ystyrid ei fod yn balas brenhinol hefyd. Bwriedid i wychder y bensaernïaeth ac ansawdd y deunyddiau a'r manylion gyfleu grym a chyfoeth y brenin i'r bobl. Bwriedid cyfoeth yr ystafelloedd ar gyfer y swyddogion uchaf ac, weithiau, y llys brenhinol. Dim ond castell Biwmares — yr olaf o'r cestyll yng ngogledd Cymru — a gynigiai well trefniadau preswyl.

Yn bensaernïol, roedd Caernarfon yn fwy uchelgeisiol na Chonwy neu Harlech. Dangosodd penderfyniadau i ddefnyddio tyrau ffasedog yn hytrach na thyrau crwn; i roi wyneb o gerrig rhesog ar y muriau a'r tyrau wrth ochr yr afon sy'n dwyn i gof furiau Caer Gystennin; ac i greu nodweddion cywrain megis Tŵr yr Eryr a Phorth y Brenin â'u haddurniadau cerfiedig bwysigrwydd cymharol Caernarfon. At ei gilydd roedd y gwaith adfer a wnaed yn oes Fictoria yn yr un ysbryd â'r gwreiddiol a defnyddiwyd deunyddiau cyfatebol.

Carreg nadd o Galchfaen Carbonifferaidd oedd y brif garreg adeiladu, y mae bron yn sicr iddi ddod o Benmon, Ynys Môn. Defnyddiwyd tywodfaen Carbonifferaidd brown golau, naill ai o Benmon neu safle arall ar Afon Menai, ar gyfer gwaith cerrig nadd, addurniadau a rhywfaint o waith palmantu. Cloddiwyd graeanfaen llwyd yn fwy lleol i'w ddefnyddio ar gyfer rhywfaint o'r gwaith mewnol ar lefelau isel.

Defnyddiwyd pren derw ar gyfer y gwaith adfer ar y castell — nid oedd odid ddim gwaith coed canoloesol wedi goroesi. Cymerir yn ganiataol iddo gael ei fewnforio o ogledd America am na fyddai'r cyfryw foncyffion anferth wedi cael eu tyfu ym Mhrydain yn ystod y 19eg ganrif.

Muriau'r Dref

Mae cynllun y dref yn radell fras o strydoedd yn ymestyn dros ardal lawer llai na Chonwy. Mae'r muriau tua 810 o lathenni (734 m) o hyd a chanddynt saith tŵr D, un tŵr cornel crwn a dau borth â phâr o dyrau ar eu pennau. Mae'r tyrau wedi'u rhifo yn groes i'r cloc o'r castell i'r castell. Mae gan y muriau a'r tyrau dyllau saethau. Mae cefn y tyrau D yn agored fel na fyddent yn rhoi unrhyw gysgod i unrhyw ymosodwr a lwyddai i ddringo'r mur. Darparwyd pontydd pren ar gyfer y tyrau fel y gellid patrolio'r rhodfa fur ddi-dor. Gellid taflu'r pontydd i lawr yn erbyn unrhyw elyn. Mae cyflwr y rhodfeydd mur a'r murfylchau yn amrywio. Y rheswm dros hyn yw, er bod darn sylweddol yng ngofal y wladwriaeth, fod gan y gweddill nifer o wahanol ddeiliaid. Dim ond darn bach o'r rhodfa fur rhwng Tyrau 4 a 6 sy'n hygyrch ar hyn o bryd.

Porth y Dwyrain oedd y brif fynedfa i'r dref ac fe'i cyrhaeddid trwy groesi pont dros Afon Cadnant, yr oedd ganddi yn wreiddiol bum bwa o gerrig a phont godi. Gosodwyd bwa o gerrig yn lle'r bont godi yn yr 16eg ganrif. Gwnaed y bwa dros Borth y Dwyrain yn lletach ac fe'i codwyd ym 1833. Lleolid y trysorlys brenhinol ac yn ddiweddarach neuadd y dref (1767) a Neuadd yr Urddau (1873) mewn ystafelloedd uwchlaw'r porth. Fe'u symudwyd yn y 1960au.

Roedd Porth yr Aur (neu Borth y Gorllewin) o gynllun tebyg ac arweiniai at flaen y traeth. Fe'i haddaswyd i ddarparu cartref ar gyfer Clwb Hwylio Brenhinol Cymru yn y 19eg ganrif.

Amgaewyd ac ymestynnwyd Tŵr 8, i'r gogledd o Borth yr Aur i ddarparu baddondy cyhoeddus ym 1823. Fe'i defnyddir bellach fel llety gwyliau.

Adeiladwyd Capel y Santes Fair ym 1303 neu'n fuan ar ôl hynny fel capel côr gan Henry of Ellerton. Saif yn erbyn wyneb mewnol y muriau wrth yr ongl ogledd-orllewinol, a Thŵr 7 yn cynnwys ei festri.

Adeiladwyd muriau'r dref o galchfaen carbonifferaidd yn bennaf. Nis adeiladwyd cystal â'r castell ac mae nifer o gerrig eraill wedi'u cymysgu â hwy, cerrig sydd naill ai'n deillio o'r gwaith adeiladu gwreiddiol neu a fewnosodwyd pan oedd gwaith atgyweirio yn cael ei wneud.

CA1.3 Amgylchedd

CA1.3.1 Daeareg a Thopograffeg

Saif Castell Caernarfon ar esgair isel o gerrig clai Ordofigaidd du, a gorchuddir yn ôl pob tebyg â gro cywasgedig sydd wedi'i chuddio bellach.

Adeiladwyd y dref â mur o'i hamgylch i'r gogledd, ar lethr sy'n graddol ddisgyn, sydd â cherrig cyn-Gambriaidd oddi tani.

CA1.3.2 Llystyfiant a Bywyd Gwyllt

Cyhoeddodd Cyngor Gwynedd Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn 2002. Mae'r cynllun hwn yn nodi'r cynefinoedd a'r rhywogaethau bywyd gwyllt a geir yn yr ardal a, lle y bo hynny'n briodol, mae'n disgrifio'r camau a gymerir i'w diogelu.

Gerllaw Caernarfon, mae'r Afon Menai islaw'r marc penllanw cymedrig yn Ardal Gadwraeth Arbennig arfaethedig (cSAC). Dewiswyd 'cSAC Y Fenai a Bae Conwy' oherwydd ei phlanhigion a'i hanfeiliaid morol a rhynglanw. Rhwng ffin orllewinol Safle Treftadaeth y Byd ac Afon Menai ceir promenâd trefol a morglawdd y gellir eu gweld ar fap John Wood dyddiedig 1834.

Mae rhan isaf dyffryn Seiont (o fewn y glustogfa ar gyfer Safle Treftadaeth y Byd) yn ardal adeiledig i raddau helaeth ar lan ogleddol yr afon ond mae llawer o'r dyfrffos a'r llaid rhynglanwol ar y lan ddeheuol yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac mae'r llethr goediog yn destun gorchymyn cadw coed.

Mae corhedyddion y graig yn defnyddio'r castell a muriau'r dref a gwyddom eu bod yn bridio ar y muriau. Efallai fod ystlumod yn defnyddio'r castell a muriau'r dref fel safle clwydo ond ni wnaed unrhyw arolygon. Mae dyfrgwn yn defnyddio coridor afon Seiont. Gwyddom fod lampreiod i'w cael yn llaid llanwol yr aber, sydd hefyd yn darparu llwybr ymfudo ar gyfer eogiaid a gleisiaid Atlantig. Diogelir y rhywogaethau hyn i ryw raddau gan ddeddfwriaeth ryngwladol neu genedlaethol.

Ar ben hynny gwyddom fod tinsiglod brith, er nad ydynt yn rhywogaeth warchodedig, yn clwydo ar furiau'r castell.

CA1.3.3 Tirwedd Hanesyddol

Roedd y nodweddion ffisegol a oedd yn diffinio cynllun y castell a bwrdeistref Caernarfon — Afon Seiont, traeth creigiog Afon Menai a nant a phwll melin Cadnant — yn amlwg pan gawsant eu mapio gan John Speed ym 1610, er bod y dref eisoes yn tyfu y tu allan i'r muriau. Erbyn yr 1830au roedd twf trefol wedi arwain at ddatblygu Cei Llechi, rhwng y castell a'r afon, promenâd yn wynebu'r afon a'r broses o sianelu'r Cadnant o dan strydoedd newydd. Yn sgîl adeiladu Doc Fictoria, a oedd yn amgáu ardal fawr o ddŵr i'r gogledd o'r dref, a'r rheilffordd, a oedd yn osgoi'r olion o'r Oesoedd Canol, datblygwyd Caernarfon ar ei ffurf bresennol. Yn ystod yr 20fed ganrif, symudwyd llawer o'r tai a adeiladwyd o amgylch y muriau a gwelwyd dau brif gynllun ffordd — ffordd osgoi i'r dwyrain o ganol y dref a thrawsnewid twnnel rheilffordd yn ffordd a oedd yn cysylltu ffyrdd dynesu'r gogledd a'r de.

Mae'r castell yn dal i ddominyddu canol y dref, tra bod muriau'r dref yn golygu bod y rhan fwyaf o'r traffig a gweithgareddau masnachol cyffredinol y tu allan i'r dref ganoloesol.

Mae Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd wedi nodweddu'r dirwedd hanesyddol ehangach o amgylch Caernarfon yn ei chyhoeddiad *Ardaloedd Nodweddion De Arfon a Dyffryn Nantlle*.

CA1.4 Diddordebau

CA1.4.1 Perchenogaeth a Chyfrifoldeb Gofal

Mae Castell a Muriau Tref Caernarfon yn henebion cofrestredig, yn adeiladau rhestredig Gradd I ac yn rhan o Safle Treftadaeth y Byd.

Mae'r rhydd-ddaliad yn perthyn i'r Goron. Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros ofalu am y castell i Cadw, un o asiantaethau gweithredol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Pe bai'r defnydd a wneir o'r castell gan y llywodraeth yn dod i ben yn y dyfodol, câi'r eiddo ei ddychwelyd i Ystad y Goron.

Dangosir pwy sy'n berchen ar furiau'r dref a phwy sy'n gyfrifol am ofalu amdanynt yn y tabl canlynol:

Darn o furiau'r dref	*Perchennog*	*Yng ngofal*
Castell hyd at Borth y Dwyrain	Cynulliad Cenedlaethol Cymru	Cadw
Porth y Dwyrain, y rhan ddeheuol	Ymchwil i'r Teitl ar y gweill	Cadw, yn amodol ar gadarnhad
Porth y Dwyrain, y gweddill	Cyngor Gwynedd	Cadw
Porth y Dwyrain hyd at Stryd Pedwar a Chwech	Cynulliad Cenedlaethol Cymru	Cadw
Stryd Pedwar a Chwech hyd at Stryd y Farchnad	Cyngor Gwynedd: ym 1957 penderfynodd yr awdurdod a ragflaenodd Gyngor Gwynedd drosglwyddo i'r wladwriaeth dri bwa a wnaed i ddarparu mynediad i Stryd yr Eglwys, Stryd y Farchnad a Stryd Pedwar a Chwech. Efallai na chwblhawyd y broses drosglwyddo hon erioed ond derbyniodd y wladwriaeth y cyfrifoldeb dros eu cynnal a'u cadw	Cadw
Stryd y Farchnad hyd at Eglwys y Santes Fair	Cynulliad Cenedlaethol Cymru	Cadw
Gerllaw Eglwys y Santes Fair	Yr Eglwys yng Nghymru	Yr Eglwys yng Nghymru (ar wahân i'r darn o'r mur i'r de-orllewin o'r eglwys y mae Cadw yn gyfrifol amdano)
Oddi yno hyd at Borth yr Aur	Nis gwyddys	Nis gwyddys
Tŵr 8	The Landmark Trust	Y perchennog
Porth yr Aur a'r mur i'r de	Clwb Hwylio Brenhinol Cymru	Y perchenogion
Oddi yno hyd at Ffos y Castell	Cyngor Gwynedd	Cadw
Oddi yno hyd at y castell	Y Goron	Cadw

Castell a Muriau Tref Conwy

CO1.1 Gwybodaeth Gyffredinol

CO1.1.1 Lleoliad

Gwlad: Cymru, y Deyrnas Unedig
Awdurdod lleol: Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyfeirnod grid cenedlaethol SH784775; Hydred 3° 49' 27" Gorll: Lledred 53° 16' 48" Gog

CO1.1.2 Crynodeb o'r Disgrifiad

Lleolir Conwy ar lan orllewinol afon Conwy. Sefydlodd y Brenin Edward I y castell a'r dref furiog ym 1283 fel yr anheddiad Seisnig cyntaf yng Ngwynedd, bro Llywelyn, Tywysog Cymru, a orchfygwyd ganddo.

CO1.2 Gwybodaeth Ddiwylliannol

CO1.2.1 Archeoleg

Mae adeiladwaith llenfur a thyrau Castell Conwy heddiw fwy neu lai fel y'i hadeiladwyd rhwng 1283 a 1287, o'r sylfeini i'r tyredi. Mae rhai o'r adeiladau domestig y tu mewn i'r muriau yn dal i sefyll i wahanol uchderau; er mai dim ond hyd at lefel y sylfeini y saif adeiladau eraill. Mae'r holl waith coed canoloesol yn y toeau a'r lloriau wedi mynd, gan adael yr ystafelloedd gwreiddiol yn agored i'r awyr. Symudwyd esgynfa'r fynedfa wreiddiol a'r fflodiart i wneud lle i ffyrdd newydd i mewn i'r dref yn y 1820au.

Dim ond dwy o'r 15 bwa o gerrig, a gymerodd le'r cyplau pren gwreiddiol dros res y Neuadd Fawr a'r Ystafelloedd Brenhinol ym 1346–7, sy'n dal i sefyll.

Mae muriau'r dref wedi goroesi yn eu ffurf wreiddiol ac eithrio lle y gwnaed bylchau ynddynt ar gyfer pedair ffordd ychwanegol a rheilffordd yn y 19eg ganrif. Darparwyd agorfeydd bwaog ar gyfer pob un o'r pum bwlch ond un ac o ganlyniad y cylch 1,400 o lathenni (1.3 km) o hyd yw'r enghraifft fwyaf cain a chyflawn sydd wedi'i chadw o fur tref ganoloesol sydd ar ôl ym Mhrydain.

Mae olion plastr calch i'w gweld o hyd sy'n dangos bod y tu allan i'r castell i gyd wedi'i rendro a'i wyngalchu yn wreiddiol. Mae'n debyg bod muriau'r dref wedi cael triniaeth debyg.

CO1.2.2 Hanes

Daeth dyffryn Conwy dan reolaeth y Saeson ym mis Ionawr 1283 ac ym mis Mawrth dechreuodd y Brenin Edward I wneud trefniadau ar gyfer atgyfnerthu'r groesfan dros yr afon. Roedd y tir ar lan orllewinol yr afon wedi'i roi i Abaty Sistersaidd Aberconwy gan Llywelyn Fawr, Tywysog Gwynedd, ym 1198.

Ym mis Medi 1283 cafodd James of St George afael ar dir ymhellach i fyny'r dyffryn ar gyfer adleoli'r abaty, gan adael y safle gwreiddiol yn glir ar gyfer sefydlu bwrdeistref Seisnig.

Dim ond eglwys yr abaty a adawyd fel eglwys y plwyf ar gyfer y fwrdeistref. Mae'n debyg — o ystyried maint y dref gynlluniedig a faint o adeiladau gweinyddol a ddarparwyd — y bwriedid mai Conwy fyddai'r ganolfan ar gyfer un o'r tair sir newydd yng Ngwynedd ond yn y pen draw syrthiodd y rôl honno i Gaernarfon.

Adeiladwyd y castell, a oedd wedi'i leoli gerllaw'r groesfan, yn rhyfeddol o gyflym. Cwblhawyd yr holl waith mawr o fewn pedair blynedd a hanner a chwblhawyd muriau'r dref yn ystod yr un cyfnod.

Cyfarwyddwyd y gwaith gan Feistr James of St George fel Meistr Gwaith y Brenin yng Nghymru. O fewn tri mis roedd James hefyd yn ymwneud â Harlech a Chaernarfon a byddai wedi bod angen rhywfaint o ddirprwyo.

Cofnodir cyfrifoldebau eraill mewn adroddiadau cyfoes. Ymwnâi Richard y Peiriannydd yn benodol â thorri'r ffosydd yn y graig. Roedd Henry of Oxford a Laurence of Canterbury yn benseiri. Roedd John Francis yn saer maen. Ymhlith enwau eraill a gofnodwyd mae Jules of Chalons, William of Seyssel (ar afon Rhone), Peter of Boulogne, Roger of Cockersand, John of Sherwood a Robert of Frankby (yng Nghilgwri).

Mae'r cofnodion yn anghyflawn ond, yn y rhai sydd wedi goroesi, nodir yn aml bod tasgau yn cael eu cyflawni o dan gyfarwyddyd Meistr James, oedd â swyddfa gerllaw'r castell. Ymgymerodd James â thasgau penodol fel contractwr yn ogystal â rhoi contractau a chyfarwyddo gwaith. Tynnwyd y gweithlu o ardal eang o Loegr gyda mannau ymgynnull yng Nghaer a Bryste.

Ar ôl 1292 nid oedd ansawdd y gwaith cynnal a chadw cystal ag ansawdd yr adeiladwaith gwreiddiol. Cyn hir roedd angen gwneud gwaith atgyweirio mawr i'r toeau. Ym 1346–47 adnewyddwyd gwaith coed ar y toeau a gosodwyd toeau plwm. Yn rhes y neuadd fawr a'r ystafelloedd brenhinol gosodwyd bwâu o gerrig yn lle cyplau pren. Dyma oedd y newidiadau mawr olaf yr ymgymerwyd â hwy yn y castell.

Ym 1627 gwerthwyd y castell i berchennog preifat, sef Is-iarll Conwy, ond parhaodd i gael ei esgeuluso. Yn ystod (1642–48) Rhyfel Cartref fe'i garsiynwyd ac fe'i hatgyfnerthwyd ar gyfer y Brenin gan John Williams, sef Archesgob Caerefrog a oedd wedi'i eni yng Nghonwy. Ar ôl newid ochr, ildiodd y castell i'r seneddwyr, a'i cadwodd yn barod ar gyfer rhyfel am bum mlynedd.

Daeth y castell i feddiant y teulu Conway unwaith eto ar ôl adfer Siarl II. Tynnwyd y toeau plwm a gadawyd y castell ar drugaredd y tywydd.

Arweiniodd natur annibynadwy'r fferïau dros afon Conwy, a oedd wedi datblygu'n broblem ddifrifol ar ddechrau'r 19eg ganrif, at newidiadau mawr yn y dref. Agorodd y peiriannydd, Thomas Telford bont ffordd — fersiwn llai o faint o'i bont grog dros Afon Menai — ym 1826. Angorwyd pen gorllewinol y bont grog yng nghraig y castell ac adeiladodd Telford borth newydd (a ddymchwelwyd ym 1958) ym muriau'r dref i ddod â'r ffordd i mewn i'r dref. Agorwyd bwa mewn un o'r tyrau i fynd â'r ffordd ymlaen tuag at Fangor. Pan ddaeth traffig cerbydau yn yr 20fed ganrif a phan agorodd pont ffordd gyfochrog yn y 1950au, datblygodd yr ymgais hwn i wthio cefnffordd trwy strydoedd canoloesol yn broblem fawr, nas datryswyd nes i dwnnel ffordd gael ei agor o dan yr aber ym 1991. Dyma oedd yr enghraifft gyntaf ym Mhrydain o fuddsoddi ar raddfa fawr iawn mewn seilwaith i ddiogelu Safle Treftadaeth y Byd a'i leoliad.

Daeth y peiriannydd, Robert Stephenson â'r rheilffordd o Gaer i Gaergybi trwy'r dref furiog ym 1848. Croesai'r llinell yr afon ar draws pont diwb gerllaw pont grog fwy cain Telford ac ysgubai heibio i graig y castell. Torrwyd bwlch trwy ochr ddeheuol Muriau'r Dref ar osgo a ofynnodd am fwa Tuduraidd llydan iawn i adfer llinell y muriau. Gadawai'r rheilffordd y dref tua'r gogledd-orllewin trwy dwnnel byr o dan y muriau. Er nad oedd angen unrhyw fwlch achosodd tirlithriad hollt ddifrifol mewn un tŵr. Tanategwyd y tŵr hwn ym 1963.

Atgyweiriodd cwmni'r rheilffordd fwlch difrifol yn Nhŵr y Popty yn y castell. Credir i'r bwlch hwn ddeillio o ymgais i ddifrodi'r castell ym 1655.

Hefyd yn ystod y 19eg ganrif dechreuwyd dangos diddordeb diwylliannol yn yr adfeilion canoloesol yng Nghonwy. Adferwyd un tŵr yn y muriau ac agorwyd rhodfa fur y gogledd i ymwelwyr. Trosglwyddodd olynwyr y teulu Conway yr adfeilion i Fwrdeistref Conwy a rhoddodd y Frenhines Victoria swydd y cwnstabl i'r maer.

Ym 1953 prydleswyd y castell a muriau'r dref i'r wladwriaeth a dechreuwyd ar raglen barhaus o waith atgyfnerthu. Erbyn hyn maent yn cael eu cynnal a'u cadw gan Cadw, un o asiantaethau gweithredol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

CO1.2.3 Peirianneg Filwrol a Phensaernïaeth

Y Castell

Roedd y safle ar gyfer Castell Conwy — 140 o lathenni (128 m) o hyd ac uchafswm o 75 o lathenni (69 m) o led — yn rhy gyfyngedig i gynnwys system gonsentrig o amddiffynfeydd. Felly roedd yr egwyddorion y tu ôl i'r cynllun yn debyg i'r egwyddorion hynny a luniodd gastell Caernarfon er bod cynllun a thriniaeth bensaernïol y ddau gastell yn wahanol iawn.

Er bod safle'r castell yn edrych dros y groesfan ar draws yr afon, uwchlaw'r castell ei hun roedd tir uwch o fewn ergyd saeth y tu hwnt i nant Gyffin i'r de. Roedd yn rhaid i'r llenfur fod yn 90 troedfedd (27 m) o uchder ac roedd darn mawr o dir marw yn nyffryn Gyffin. Fodd bynnag, oherwydd bod y graig mor serth ac oherwydd na ellid ei danseilio roedd y castell wedi'i amddiffyn ar yr ochr hon. I'r gogledd ac i'r gorllewin codai'r tir yn serth ac yn y fan hon byddai'r dref furiog yn darparu amddiffynfa gydategol.

Roedd y llenfur at ei gilydd yn 10 troedfedd (3 m) o drwch ac roedd iddo wyth tŵr yn codi i 135 troedfedd (41 m) uwchlaw'r afon. Rhedai rhodfa fur ddi-dor o amgylch pen y llenfur. Nid oedd unrhyw rodfeydd mur mewnol ar raddfa fawr. Yn lle hynny roedd gan y mwyafrif o gloerdyllau saethau gilfachau eang i ddiogelu croesfwawyr ac i ddarparu maes saethu ehangach ar eu cyfer. Darparai pob un o'r tyrau ystafelloedd yn ogystal â gweithredu fel amddiffynfeydd, ac roedd gan yr ystafelloedd mwy o faint ar y lefelau uchaf leoedd tân. Roedd gan rai o'r ystafelloedd hyn eu tai bach eu hunain, a oedd wedi'u cynllunio fel y byddent yn gollwng y tu allan i'r llenfur.

Amgaeai'r llenfur lain afreolaidd ei siâp, wedi'i rhannu'n ddwy ward gan fur cryf arall.

Cynhwysai'r ward allanol y brif fynedfa, yr eid i mewn iddi o farbican y gorllewin, a gyrhaeddid yn ei dro trwy ddringo esgynfa serth o'r dref. Amddiffynnid y ffordd hon at y fynedfa gan bont godi a phorthcwlis, drws allanol, cwrt amgaeëdig y barbican (yr oedd dau dŵr, creneliadau, cloerdyllau saethau a thyllau llofruddio yn edrych i lawr arno) a thramwyfa'r porth ei hun. Gellid diogelu'r dramwyfa hon â barrau tynnu, porthcwlis a drws pren. Mae Tŵr y Gogledd-orllewin a Thŵr y De-orllewin a'r darn byr o lenfur rhyngddynt gyda'i gilydd yn ffurfio fersiwn estynedig o'r pyrth â phâr o dyrau ar eu pennau a welir mewn mannau eraill. Yn ogystal â darparu amddiffynfa gref, byddai'r rhan hon o'r castell wedi bod yn gartref i'r cwnstabl.

Bwriedid y ward allanol ar gyfer swyddogaethau mwy cyhoeddus y castell ac ar gyfer y gwasanaethau domestig.

Ar yr ochr ddeheuol i'r ward hon roedd ystafelloedd y neuadd fawr. Pennwyd ei chynllun afreolaidd gan linell y llenfur, y mae'n ffinio ag ef. Credir bod y neuadd fawr ynghanol yr ystafelloedd gyda neuadd lai, a wasanaethid trwy ragystafell, yn y naill ben a Chapel yn y pen arall. Mae'r palisau pren a rannai'r ystafelloedd wedi mynd ers amser maith.

Ar hyd ochr ogleddol ac ochr ddwyreiniol y cwrt safai adeiladau a ddefnyddid fel gwarchotai ac ar gyfer swyddogaethau domestig. Dim ond y sylfeini sydd wedi goroesi. Ar yr ochr ddwyreiniol roedd ffynnon y castell. Mae'n bosibl na fyddai'r graig hollt, y mae

wedi'i thorri i mewn iddi, yn dal dŵr a bod y ffynnon yn gweithredu fel seston a gyflenwai ddŵr trwy bibellau allanol.

Cynhwysai pob un o'r pedwar tŵr a gyrhaeddid o'r ward allanol ddau lawr, pob un ag ystafell y gellid byw ynddi, ac islawr ar gyfer storio. Mae gan Dŵr y Carchar, fel eithriad, is-seler sydd wedi'i chuddio'n dda, y mae'n amlwg y bwriedid iddi fod yn gell carchar.

Darparai'r ward fewnol breswylfa ddiogel ar gyfer y brenin a'r frenhines a chadarnle ar gyfer y llys brenhinol. Gellid ei hamddiffyn hyd yn oed pe collid y ward allanol. Lleolid y mur a wahanai'r ward allanol a'r ward fewnol y tu ôl i ffos ddofn a oedd wedi'i thorri i mewn i'r graig. Croesid y ffos hon ar draws pont godi. Câi'r bont godi hon ei gweithio o borthdy bach a warchodai dramwyfa gul i'r ward fewnol ac arweiniai at y porthdy bach hwnnw.

Gellid cyrraedd y ward fewnol yn uniongyrchol o Afon Conwy hefyd. Mae'r fflodiart gywrain wedi mynd ond mae olion grisiau yn arwain i fyny at Farbican y Dwyrain, a amddiffynnai dramwyfa fynediad gul (gydag amddiffynfeydd uwch ei phen yn debyg i rai'r fynedfa orllewinol) trwy'r llenfur. O'r fan hon arweiniai grisiau preifat i fyny at y ddau dŵr dwyreiniol.

Roedd gan y ward fewnol bedwar tŵr tebyg i'r rhai yn y ward allanol, heblaw bod gan bob un dyred ar ei ben a chynhwysai dau ohonynt ystafelloedd a ddangosai eu bod yn bwysicach.

Ar ben hynny cynhwysai'r ward fewnol adeilad deulawr ar ffurf L a gynhwysai'r ystafelloedd brenhinol. Roedd y tair prif ystafell ar y llawr cyntaf ac ymddengys y byddid wedi eu cyrraedd i fyny grisiau allanol o'r cwrt agored. Ar y llawr daear roedd ystafelloedd gwasanaethu a pharlwr. Gellid cyrraedd Tŵr y Brenin a Thŵr y Capel o ddau lawr yr adeilad deulawr a darparent ragor o ystafelloedd brenhinol. Cynhwysai Tŵr y Capel gapel cromennog bach hardd iawn. Caniatâi trefniant dyfeisgar i'r Brenin wrando ar yr offeren o siambr wylio. Roedd yr ystafelloedd brenhinol wedi'u cyfoethogi â ffenestri rhwyllog mawr.

Eid i mewn i Dŵr y Stocdy a Thŵr y Popty o gwrt y Ward Fewnol ac mae'n bosibl bod yr ystafelloedd uchaf wedi'u bwriadu ar gyfer gwesteion.

Gwyddom fod gan y castell ddwy ardd. Lleolir yr ardd fwyaf i'r gorllewin y tu allan i ffos y castell. Roedd gardd debyg, llai o faint, wedi'i gosod o fewn barbican y dwyrain i ddarparu golygfa ddymunol o'r ystafelloedd brenhinol.

Mae'n rhaid bod golwg y castell yn wahanol iawn pan oedd yn dal i fod wedi'i rendro â chalch ac wedi'i wyngalchu. Erbyn hyn mae'r holl waith cerrig gwaelodol yn y golwg.

Roedd y rhan fwyaf o'r muriau rwbel, a osodwyd mewn rhesi wedi'u gwneud o garreg rud, a gloddiwyd yn ôl pob tebyg gerllaw'r safle. Gwnaed y rhan fwyaf o'r capanau drysau o'r un garreg. Roedd y garreg hon yn gryf ond nid oedd yn hawdd ei gweithio a defnyddiwyd tywodfaen ag ysmotiau coch a gwyn ar gyfer y gwaith mowldio a cherfio. Mae'n debyg mai tywodfaen Triasig ydoedd, a gludwyd i Gonwy ar longau o Gaer. Mae tystiolaeth ddogfennol mai dyma oedd ffynhonnell y cerrig a ddefnyddiwyd ar gyfer y bwâu a adeiladwyd ym 1346–7.

Muriau'r Dref

Roedd cynllun y dref a sefydlwyd gan Edward I yn seiliedig ar nifer o ofynion ymarferol:

- Amddiffyn y dref a'r castell ar y cyd;
- Creu digon o diroedd bwrgais i annog pobl o Loegr i ymsefydlu yno;
- Darparu lle ar gyfer rheoli un o siroedd newydd gogledd Cymru (er bod y ganolfan lywodraethol wedi'i throsglwyddo i Gaernarfon yn ddiweddarach);

- Defnyddio Afon Gyffin fel amddiffynfa a ffynhonnell pŵer ar gyfer melin y dref;
- Defnyddio'r traeth ar Afon Conwy ar gyfer masnach glannau môr gyda'r lefel uchaf posibl o ddiogelwch; ac
- Ymgorffori eglwys yr abaty ac, o bosibl, ymgais i ddileu treftadaeth y tywysogion Cymreig.

Roedd y llawrgynllun a ddeilliodd o hyn yn driongl fwy neu lai a newidiwyd i gyd-fynd â'r dopograffeg ac i sicrhau'r man gwylio gorau posibl o'r pwynt uchaf yn y dref.

Roedd y dref wedi'i rhannu'n adrannau: roedd pob rhan tua 150 troedfedd (46m) o hyd, a chanddi rodfa fur a thyrau cynllun D â wynebau hanner crwn i gyfeiriad cefn gwlad a mynyglau (cefnau) agored i gyfeiriad y dref. Darparwyd pontydd pren ar gyfer y mynyglau hyn i ganiatáu i'r rhodfa fur gael ei phatrolio yn ddi-dor. Byddai parapetau crenelog a llwyfannau amddiffynnol yn caniatáu i'r dinasyddion eu dal gyda'r lefel uchaf o ddiogelwch ond, pe bai gelyn yn cymryd unrhyw un o'r rhannau, gellid taflu pontydd i lawr a gellid parhau i amddiffyn y gweddill. Byddai grisiau i fyny at bob tŵr yn caniatáu atgyfnerthu unrhyw ran. Nid oedd unrhyw barapetau yn wynebu'r dref fel na fyddai gan ymosodwr unrhyw le i guddio.

Gyda'i gilydd mae'r muriau'n mesur 1,400 o lathenni (1.3km) o hyd. Fel y'u hadeiladwyd, amrywiai uchder y muriau hyn oherwydd y tir ar oleddf ond roeddynt o leiaf 20 troedfedd (6m) o uchder ar yr wyneb allanol. Mae 21 o dyrau sy'n dal i sefyll hyd at 50 troedfedd (15m) o uchder. Maent wedi'u rhifo bellach yn groes i'r cloc o'r castell i'r castell. Edrychai Tŵr 13, yr unig dŵr crwn, dros y dref gyfan yn ogystal â'r cefn gwlad y tu allan. Roedd tri phorth â phâr o dyrau ar eu pennau; y Porth Uchaf tua chefn gwlad agored; y Porth Isaf tua'r traeth; a Phorth y Felin, a roddai fynediad i'r felin ar Afon Gyffin a oedd wedi'i hargáu. Nid oedd unrhyw gysylltiad uniongyrchol rhwng amddiffynfeydd muriau'r dref a'r castell, sy'n awgrymu mai'r dinasyddion oedd yn gyfrifol am amddiffyn y dref. Ymddengys nad oedd gan y darnau o furiau a gysylltai'r dref a'r castell na pharapetau na rhodfa fur.

Adeiladwyd caincfur ychwanegol, yn bargodi i mewn i'r afon, i ddiogelu'r lanfa ar gyfer llongau, naill ai rhag stormydd neu rhag ymosodiadau. Ym mhen y caincfur hwn roedd tŵr crwn yn wreiddiol. Mae'n debyg i'r tŵr hwn gael ei olchi ymaith yn gynnar yn hanes y dref.

Ymestynnwyd Tŵr 16 ac fe'i haddaswyd i'w ddefnyddio at ddibenion preswyl erbyn 1305 ar y cyd ag adeilad yn dyddio o'r cyfnod cyn y goresgyniad yn union y tu ôl i'r mur. Fe'i hadwaenid fel Neuadd Llywelyn ac fe'i defnyddid gan y Saeson at ddibenion gweinyddol cyn cael ei symud i Gaernarfon. Torrwyd tair ffenestr fwaog trwy fur y dref yn y fan hon i oleuo'r adeilad.

Y tu mewn i'r darn hwn o'r mur o Dŵr 18 hyd at y castell — yng ngardd y castell neu o'i hamgylch ac yn cynnwys Porth y Felin — roedd ystafelloedd ar gyfer y Trysorlys, y Wardrob a Meistr Gwaith y Brenin, sef y prif adrannau a gynhaliai'r awdurdod brenhinol yng ngogledd Cymru. Mae'n debyg bod hyn yn esbonio pam y darparwyd deuddeg tŷ bach unigol ar ben y mur rhwng Tŵr 18 a Phorth y Felin a pham yr ymgorfforwyd ystafelloedd domestig mewn un o dyrau'r porth.

Adeiladwyd ystafelloedd deheuol a gorllewinol y muriau o'r un garreg rud Silwraidd â'r castell. Defnyddiodd yr ystafelloedd gogleddol a'r caincfur lawer o ryolit Ordofigaidd, a gloddiwyd ar Fryn Bodlondeb gerllaw neu a gymerwyd o Gastell Deganwy, ar draws yr afon. Mae'r ystafelloedd sy'n gyfochrog â'r afon wedi'u gwneud yn gyfan gwbl o ryolit.

Mae Muriau Tref Conwy yn oroesiad unigryw. Maent yn dal i ddiffinio'r dref, sydd wedi cadw patrwm canoloesol ei strydoedd ac maent yn caniatáu iddi gael ei gweld fel uned, wedi'i chysylltu'n agos â'r castell.

CO1.3 Amgylchedd

CO1.3.1 Daeareg a Thopograffeg

Sefydlwyd Conwy ar esgair o gerrig grud neu dywodfeini Silwraidd yn rhedeg o'r groesfan wreiddiol dros afon Conwy i gyfeiriad y gorllewin. O dan y cerrig grud i gyfeiriad y gogledd ceir Cerrig Clai Du a Brown Ordofigaidd a cheir fflatiau llanw i'r dwyrain. Mae'r gwelyau o gerrig grud ar oleddf tua'r de o ryw 50°.

Lleolir y castell a'r muriau deheuol ar yr esgair, tra bod gweddill y muriau wedi'u seilio ar y cerrig clai. Dangoswyd pa mor wan yw'r cerrig clai hyn pan ymddangosodd hollt unionsyth mawr yn Nhŵr 11 ar ôl i dwnnel rheilffordd gael ei adeiladu o dan y muriau yn y 1840au.

Esgorodd goleddf serth y garreg rud ar ddwy broblem. Roedd yn anodd dod o hyd i gyflenwad dŵr dibynadwy o fewn y castell ac mae'n bosibl bod dŵr wedi'i bibellu o ffynhonnau i'r gorllewin o'r dref a bod dŵr glaw a gesglid ar y safle i'w storio yn y seston yn y ward allanol wedi'i ychwanegu ato. Ar ben hynny mae'r gwelyau ar oleddf yn tueddu i dorri i ffwrdd a bu'n rhaid atgyfnerthu'r graig yn yr oes fodern.

CO1.3.2 Llystyfiant a Bywyd Gwyllt

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi cyhoeddi Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Conwy, 2003. Mae'r cynllun hwn yn nodi'r cynefinoedd a'r rhywogaethau bywyd gwyllt a geir yn yr ardal a, lle y bo'n briodol, mae'n disgrifio'r camau a gymerir i'w diogelu.

Disgwylir i aber Conwy gael ei dynodi fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SDdGA). Yn gyffredinol bydd y ffin ar y lefel penllanw gymedrig ond bydd yn cynnwys Cei Conwy, ac eithrio lle y mae caniatâd cynllunio sy'n bodoli eisoes ar gyfer datblygiad.

Gwyddom fod dyfrgwn yn defnyddio'r aber ac Afon Gyffin sy'n un o'i hisafonydd, er nad oes unrhyw gofnodion a gadarnhawyd fod dyfrgwn wedi'u gweld gerllaw'r castell neu lan y cei. Yn gyffredinol ni chofnodir y gwir lefelau o fywyd gwyllt yn yr ardal hon.

Ar ben hynny mae dau Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig eisoes o fewn yr ardal.

Mae Coedwig Benarth yn goetir o goed collddail cymysg ar greigiau Silwraidd sy'n ymestyn dros 54 o erwau (22 hectar). Mae'n edrych dros y castell a'r dref o'r de ac mae'n rhan o'i leoliad hanfodol. Lleolir y coetir o fewn y parc sydd ynghlwm wrth Neuadd Benarth. Mae'r parc wedi'i ddynodi'n Radd II yng *Nghofrestr Tirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru: Rhan I: Parciau a Gerddi* (Cadw ac ICOMOS-UK, 1998).

Mae Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Cadnant yn cyffinio â muriau'r dref i'r gogledd ac mae o ddiddordeb daearegol penodol. Fe'i dynodwyd am fod hafn reilffordd wedi datguddio dilyniant cyflawn trwy Gerrig Clai (Du a Brown) Cadnant — y dilyniant sydd o dan y rhan fwyaf o'r dref furiog.

CO1.3.3 Tirwedd Hanesyddol

Lleolir Conwy o fewn tirwedd hanesyddol arbennig sy'n cynnwys rhan isaf aber Afon Conwy a'r ardal o gefn gwlad ar bob ochr iddi (*Cofrestr Tirweddau o Bwysigrwydd Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru*: Ardal Y Creuddyn a Chonwy; Cyngor Cefn Gwlad

Cymru, Cadw ac ICOMOS-UK, 1998). O fewn y dirwedd hon, mae Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd wedi nodweddu nifer o ardaloedd yng Nghonwy a'r cyffiniau, gan gynnwys Ardal 2006: Conwy, Ardal 2007: Morfa Conwy ac Ardal 2014: dolydd bryniog, i'r gorllewin o Afon Conwy.

Y prif fryn ar yr ochr ddwyreiniol yw Penygogarth, tra bod Mynydd Conwy yn dominyddu'r ochr orllewinol. Mae'r ddau yn codi mwy na 656 tr (200 metr) uwchlaw lefel y môr. Mae pobl wedi ymgartrefu yn yr ardal ers y cyfnod cynhanesyddol ac mae tystiolaeth o fwyngloddio copr ar y Gogarth o'r Oes Efydd i'r 19eg ganrif. Mae olion Paleolithig a Neolithig a thystiolaeth o aneddiadau a bryngeyrydd o'r Oes Haearn. Canfuwyd arwyddion o ddeiliadaeth y Rhufeiniaid a'r Llychlynwyr.

Atgyfnerthwyd bryn arunig yn Neganwy gan y Cymry yn ystod y cyfnod wedi teyrnasiad y Rhufeiniad. Lleolwyd mynachlog Sistersaidd yng Nghonwy ei hun — mae eglwys yr abaty yn cael ei defnyddio o hyd fel eglwys y plwyf. Adeiladwyd Cei Conwy rhwng muriau'r dref a'r afon yn y 19eg ganrif ac mae'n cynnig lleoliad busnes ar gyfer y diwydiannau pysgota a thwristiaeth.

Lleolwyd Conwy wrth groesfan gyfleus isaf Afon Conwy — lle adeiladwyd dwy bont ffordd ac un bont rheilffordd — ac yno oedd y brif anheddiad yn yr ardal hyd nes y datblygwyd Llandudno fel cyrchfan wyliau o'r 1850au. Datblygiad pwysicaf yr 20fed ganrif oedd adeiladu'r ffordd A55 newydd, sy'n croesi'r aber drwy dwnnel anymwthiol.

O fewn muriau'r dref, mae rhai adeiladau o'r 16eg ganrif wedi goroesi (gan gynnwys Plas Mawr a Thŷ Aberconwy) ond mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau yn dyddio o'r 19eg ganrif.

CO1.4 Diddordebau

CO1.4.1 Perchenogaeth a Chyfrifoldeb Gofal

Mae Castell a Muriau Tref Conwy yn henebion cofrestredig, yn adeiladau rhestredig Gradd I ac yn rhan o Safle Treftadaeth y Byd. Mae rhydd-ddaliad y castell a muriau'r dref yn perthyn i Gyngor Tref Conwy. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn eu dal ar brydles am 99 o flynyddoedd o 1 Ebrill 1953. Mae nifer o drosglwyddiadau a phrydlesi atodol a phrydlesi ar wahân yn gysylltiedig â'r tir cyfagos.

Cadw, yn gweithredu ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gyfrifol am ofalu am y castell a'r muriau, y pyrth a'r tyrau canoloesol hyd at 1 Ebrill 2052.

Nid yw ardal muriau'r dref sydd wedi'i phrydlesu yn cyfateb yn union ag ardal yr heneb gofrestredig. Yn benodol, mae Tŵr Telford ar Sgwâr y Castell, y tu mewn i Dyrau 1, 2, 3, tyrau dwbl y Porth Isaf, Tyrau 8, 9, 10 (Bwa Bangor), 11, 16, 17 a 18 wedi'u heithrio o'r brydles ac wedi'u meddiannu gan eraill.

Castell Harlech

H1.1 Gwybodaeth Gyffredinol

H1.1.1 Lleoliad

Gwlad: Cymru, y Deyrnas Unedig
Awdurdod lleol: Cyngor Gwynedd
Lleolir Harlech o fewn Parc Cenedlaethol Eryri. Yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yw'r awdurdod cynllunio lleol ar gyfer yr ardal.
Cyfeirnod grid cenedlaethol: SH581312; Hydred 4° 06' 29" Gorll; Lledred 52° 51' 35" Gog

H1.1.2 Crynodeb o'r Disgrifiad

Lleolir Harlech yn hen sir Feirionydd, a gerfiodd y Brenin Edward I allan o diroedd Llywelyn, Tywysog Cymru, ar ôl iddo gael ei orchfygu ym 1282 — sef y flwyddyn y bu farw. Dechreuwyd adeiladu'r castell ym 1283. Saif ar frigiad creigiog yn edrych dros ardal o fignen a thwyni sy'n ymestyn allan i'r môr.

H1.2 Gwybodaeth Ddiwylliannol

H1.2.1 Archeoleg

Adeiladwyd yr olion sydd wedi goroesi mewn dau brif gyfnod adeiladu. Yn ystod y cyfnod cyntaf ym 1283 adeiladwyd clostir a gwaith amddiffynnol tua'r tir yn gyflym. Codwyd y gwaith amddiffynnol hwn a'u gwneud yn fwy trwchus wedyn yn ystod yr ail gyfnod adeiladu, a gwblhawyd erbyn 1289. Ar yr un pryd adeiladwyd y ddau dŵr tua'r môr. Mae pob un o'r muriau a'r tyrau yn dal i sefyll i'w llawn uchder er bod llawer o'u creneliadau wedi'u colli.

Mae amddiffynfeydd llai sylweddol y 'Ffordd o'r Môr' yn llai cyflawn ac felly hefyd y muriau a amgaeai graig y castell.

Yr unig adeiladwaith diweddarach a geir o fewn y castell yw sylfeini'r ddau dŵr (1323–4) a ychwanegwyd i amddiffyn y ffordd ddynesu at y castell ar draws y ffos sych lydan a dwfn.

H1.2.2 Hanes

Er bod Llywelyn, Tywysog Cymru, wedi'i ladd ar faes y gad ym mis Rhagfyr 1282, parhaodd y Cymry i wrthsefyll goresgyniad y Brenin Edward I yn eu cadarnle. Fodd bynnag roedd y goresgyniad wedi'i gwblhau erbyn mis Ebrill 1283 a gorchmynnwyd adeiladu castell newydd yn Harlech ar unwaith. Daethpwyd ag arian a dynion i mewn ac amgaewyd y castell yn ystod yr un flwyddyn. Yn y blynyddoedd hyd 1289 atgyfnerthwyd y llenfur mewnol; cwblhawyd y tyrau a'r porthdy; ac adeiladwyd muriau o amgylch y 'Ffordd o'r Môr'.

Cyfarwyddwyd y gwaith gan Meistr James of St George fel Meistr Gwaith y Brenin yng Nghymru. Nid oes unrhyw gofnod sy'n dangos p'un o'i gynorthwywyr a gymerodd ran arbennig yn y gwaith. Tua'r adeg y'i cwblhawyd rhoddwyd swydd ychwanegol i James fel Cwnstabl Castell Harlech, lle y bu'n byw am y tair blynedd nesaf (1290–3).

Profwyd pa mor bwysig oedd mynediad uniongyrchol i'r castell o'r môr yn ystod gwrthryfel y Cymry ym 1294. Bu'r castell dan warchae ond oherwydd cyflenwadau y daethpwyd â hwy yn syth o lwerddon roedd yn bosibl i'r gariswn Seisnig ddal. Yng ngoleuni'r profiad hwn, amgaewyd ochr ogleddol craig y castell hefyd o fewn mur.

Aeth Castell Harlech trwy gyfnodau cyfarwydd o esgeulustod a gweithgarwch brys yn ystod y canrifoedd canlynol. Yn ystod cyfnodau o heddwch gallai'r Cwnstabl fyw neu beidio â byw yn y Porthdy a'r garsiwn arferol fyddai tua 30 o ddynion. Ym 1404, yn ystod gwrthryfel Owain Glyn Dŵr, ildiodd garsiwn gwael ar ôl gwarchae hir. Sefydlodd Owain ei lys yn y castell a'i wneud yn gartref iddo ac mae traddodiad mai dyma lle y'i coronwyd yn Dywysog Cymru. Gwarchaewyd y garsiwn Cymreig gan Harry of Monmouth, sef y Brenin Harri V yn ddiweddarach, ac ailgipiodd y castell ar ddechrau 1409.

Ymosodwyd ar y castell unwaith eto ym 1468 yn ystod Rhyfeloedd y Rhos. Cymerodd byddin lorcaidd o 7–10,000 o ddynion 50 o garcharorion ar ddiwedd gwarchae a barodd am fis.

Ar ddiwedd yr 16eg ganrif cynhelid Brawdlys Meirionnydd yn y castell, defnydd rheolaidd a gyfrannodd at ei gynnal a'i gadw. Rhoddwyd prawf ar hyn yn ystod y Rhyfel Cartref, pan fu garsiwn o wŷr y brenin dan warchae am wyth mis. Harlech oedd y cadarnle brenhingar olaf i syrthio i'r senedd.

Er gwaethaf gorchymyn i'w ddymchwel arhosodd y castell yn eiddo i'r Goron. Mae'n cael ei gynnal a'i gadw fel heneb ers 1914. Atgyfnerthwyd y gwaith maen ac adferwyd y lefelau daear gwreiddiol. Erbyn hyn mae yng ngofal Cadw yn gweithredu ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Derbyniodd tref Harlech ei siarter frenhinol ym 1284. Ymddengys na fu mur o'i hamgylch erioed ac nid oes fawr ddim tystiolaeth o lawrgynllun ffurfiol yn y pentref presennol.

H1.2.3 Peirianneg Filwrol a Phensaernïaeth

Nid oes unrhyw gofnod sy'n dangos i Edward I ymweld â Harlech. Fodd bynnag bu yng Nghonwy am tua chwe wythnos ym mis Mawrth a mis Ebrill 1283 ac mae'n debyg i'r penderfyniad i adeiladu'r castell gael ei wneud bryd hynny. Cynigiai'r safle a ddewiswyd lwyfan cymharol wastad ar gyfer adeiladu'r castell 200 troedfedd (61m) uwchlaw lefel y môr ar ben brigiad creigiog a ddarparai'r feistrolaeth orau bosibl ar yr arfodir. Mae'n rhaid bod Meistr James of St George wedi croesawu'r cyfle i ddatblygu egwyddor y castell consentrig heb y cyfyngiadau a fu arno yng Nghonwy a Chaernarfon. Llwyddodd i gynllunio pedair rheng o amddiffynfeydd:

- Mae'r ward fewnol yn ffurfio cwadrangl. Ar yr ochr ddwyreiniol a'r ochr orllewinol mae'r muriau hyn yn gyfochrog ond i'r gogledd ac i'r de maent yn ymledu i ddarparu lle ar gyfer y Porthdy Mawr a hefyd, i sicrhau'r effaith bensaernïol fwyaf trawiadol efallai. Roedd y llenfur rhwng 8 i 10 troedfedd o drwch (2.4 i 3m) ac yn wreiddiol roedd tua 50 troedfedd (dros 15m) o uchder — roedd angen adeiladu'r llenfur mor uchel â hyn am fod y tir i'r dwyrain yn codi gan roi mantais i unrhyw elyn. Ynghanol y cynllun amddiffynnol roedd y Porthdy Mawr. Ar lefel y ddaear roedd y brif fynedfa i'r castell, ar ffurf tramwyfa yn arwain rhwng y pâr o dyrau. Amddiffynnai cyfres o rwystrau dramwyfa'r porth — sef pâr o ddrysau a agorai allan a oedd wedi'u cau'n dynn gan far tynnu, dau borthcwlis a phâr o ddrysau a agorai tuag at i mewn. Rhwng pob rhwystr roedd lle bach wedi'i warchod gan gloerdyllau saethau, lle y gellid dal unrhyw un a oedd yn dod i mewn neu ymosod arno.
- Roedd y lle nesaf yn fwy o faint a gellid ei oruchwylio o ystafelloedd y porthoriaid ar y naill ochr a'r llall. Arweiniai'r rhain yn eu tro i'r dde ac i'r chwith at ddwy set o risiau

troellog, wedi'u gosod yn eu tyrau eu hunain, a godai i'r ystafelloedd uwchben. Amddiffynnai porthcwlis arall ben y dramwyfa i mewn i'r ward fewnol ac mae'n bosibl bod pâr arall o ddrysau yno.

- Mae'r ward allanol, hyd at 20 troedfedd (6m) o drwch yn amgylchynu'r llenfur mewnol. Darparai le agored, lle y byddai unrhyw elyn a oedd yn ymosod ar y castell heb gysgod rhag saethu yn dod o'r muriau a'r tyrau.
- Amddiffynnai'r llenfur llawer is y ward allanol. O'i rodfa fur, gallai croesfwawyr warchod y ffos y tu allan ond pe bai angen iddynt dynnu'n ôl, ni châi ymosodwr unrhyw beth i'w amddiffyn rhag y saethau yn syrthio o'r llenfur mewnol. Roedd y brif ffordd ddynesu at y castell o'r dwyrain wedi'i hamddiffyn gan borth a phont godi. Rhoddai ail bont ar yr ochr ogleddol fynediad i graig y castell.
- Ffurfiai'r llwyfan adeiladu hirsgwar fwy neu lai yn mesur 89 x 75 o lathenni (81m x 69m). Roedd y llwyfan adeiladu wedi'i amddiffyn hefyd gan ffos ddofn ar yr ochr ddeheuol a'r ochr ddwyreiniol. Nid oedd angen ffos i'r gogledd ac i'r gorllewin am fod craig y castell yn disgyn yn serth i'r arfordir. Croesai'r brif ffordd ddynesu at y castell y ffos ar draws pont garreg ac ychwanegwyd pontydd codi a dau dŵr ym 1323–24.

Wrth droed y graig roedd rhyw fath o ddoc, y gellid ei gyrraedd gan longau o bosibl ar hyd camlas fer. Bryd hynny roedd y môr gryn dipyn yn agosach at y graig nag yw yn awr. Amgylchynid craig y castell gan fur amgáu. Y tu mewn i'r mur arweiniai esgynfa â grisiau, a adwaenid fel 'Y Ffordd o'r Môr' i fyny'r graig at y castell. Wrth y gwaelod roedd fflodiart a phont godi. Ar ben hynny amddiffynnid y 'Ffordd o'r Môr' gan borth uchaf, a phont godi arall, cyn y rhan olaf o'r ffordd a godai at borth yn nhŵr y de-orllewin.

Roedd y trefniadau amddiffynnol yn Harlech yn soffistigedig a gellir ystyried eu bod yn gam tuag at ddatblygiad llawn y castell consentrig a fyddai'n cael ei weld ym Miwmares.

Nodwedd eithriadol y castell yw'r porthdy mawr. Fel yng Nghonwy roedd llety'r cwnstabl dros y brif fynedfa lle y gallai reoli'r holl fynd a dod i mewn i'r castell ac allan ohono.

Yn Harlech roedd y lleoedd preswyl i gyd mewn un adeilad a gynlluniwyd fel y byddai'n rhoi i'r cwnstabl a gwesteion o fri y lefel uchaf bosibl o ddiogelwch a chysur. Darparai'r porthdy â phâr o dyrau ar ei ben ddwy gyfres eang o ystafelloedd ar y lloriau uchaf. Roedd capel ar y llawr cyntaf hefyd. Llenwai cyfres o ystafelloedd lawr cyfan a chynhwysai ystafelloedd yn addas ar gyfer siambr fawr, siambr lai a dwy siambr wely. Roedd y tai bach a festrïoedd y capel wedi'u cynllunio i mewn i'r muriau cyfagos. Roedd gan bob un le tân a ffliwiau a oedd wedi'u casglu at ei gilydd i ffurfio cyrn simneiau lluosog a arweiniai at simneiau cywrain uwchlaw lefel y to. Cyrhaeddid pob cyfres o ystafelloedd i fyny dwy set o risiau troellog yn eu tyredau eu hunain, a rheolid mynediad iddynt gan y porthorion islaw. Felly roedd yn bosibl i'r deiliaid gael gweision ar wahân. Pe bai'r cwnstabl yn byw ar y llawr cyntaf, gallai'r ail lawr fod wedi'i fwriadu ar gyfer pwysigion a oedd yn ymweld â'r castell a hyd yn oed y brenin, weithiau.

Roedd cynllun y porthdy yn gampwaith: cyfunai gryfder mawr a lefel gymharol uchel o gysur a steil. Darparai grisiau allanol agored lwybr seremonïol at y siambr fawr ar y llawr cyntaf. Deuai ffenestri rhwyllog â golau i'r prif ystafelloedd trwy'r muriau llai diamddiffyn ac roedd gan gloerdyllau saethau mewn mannau eraill agorfaoedd go fawr ar gyfer seddau ffenestri ac at ddibenion amddiffynnol.

Roedd gweddill ystafelloedd domestig y castell mewn adeiladau unllawr a safai ar hyd tu mewn y llenfur mewnol. Yr elfen bwysicaf oedd ystafelloedd y neuadd fawr gydag wyth agorfa trwy'r llenfur — nodwedd anarferol mewn castell mor gryf. Mae'n debyg i'r gegin sy'n rhan o'r ystafelloedd hyn wasanaethu'r porthdy mawr hefyd. Ar ben hynny roedd capel mwy o faint, popty, granar a neuadd arall.

Adeiladwyd y castell yn bennaf o Garreg Rud Harlech, carreg lwyd a chryf, a gloddiwyd gerllaw. Mae'r ansawdd yn amrywio ac mae'r gwaith maen yn cynnwys meini mawr rhewlifol, blociau gwastad naturiol a cherrig hollt eraill i ffurfio'r wyneb moel. Ceir llechi lleol yn y muriau ac mewn grisiau, capanau drysau a bwâu.

Gwnaed y muriau o gerrig llanw wedi'u gosod mewn rhesi ond mae wynebau allanol y tyrau wedi'u gwneud o flociau sgwâr fwy neu lai. Mae'n debyg mai diben yr amrywiad hwn oedd ei gwneud yn haws i adeiladu'r tyrau crwn am yr ymddengys fod y tu allan i gyd wedi'i rendro ac wedi'i wyngalchu — dengys ysgythriad John Sell Cotman, a gyhoeddwyd ym 1838, ddarnau mawr a oedd yn dal i fod yn eu lle.

Fel arfer mae addurniadau (fframiau ffenestri, capanau drysau, conglfeini a lwfrau lleoedd tân) wedi'u gwneud o dywodfaen melynaidd meddal yn debyg i'r tywodfaen a geir ar Ynys Môn. Dengys rhai o fframiau'r ffenestri batrwm o dyllau lle'r oedd rhwyllau ffenestr haearn wedi'u gosod. Mae'r gwaith maen wedi'i osod mewn morter calch a wnaed o dywod o lan y môr.

H1.3 Amgylchedd

H1.3.1 Daeareg a Thopograffeg

Mae'r pentir serth a garw, lle yr adeiladwyd y castell, yn un o esgeiriau Cromen Harlech, nodwedd ddaearegol enwog a ffurfiwyd mewn carreg rud galed neu dywodfaen yn perthyn i ran isaf y System Gambriaidd. Mae natur dra chymalog y graig yn caniatáu i ddŵr glaw drylifo. Casglai'r dŵr glaw hwn mewn ffynnon yn y ward fewnol.

H1.3.2 Llystyfiant a Bywyd Gwyllt

Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Eryri ym 1999. Mae'r cynllun hwn yn nodi cynefinoedd a rhywogaethau bywyd gwyllt a geir yn yr ardal a, lle y bo hynny'n briodol, mae'n disgrifio'r camau a gymerir i'w diogelu.

Mae ecolegydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a'r cofnodwr lleol ar gyfer Cymdeithas Fotanegol Ynysoedd Prydain wedi darparu'r adroddiad canlynol ar Gastell Harlech.

'Saif y castell ar frigiad amlwg sy'n cynnwys yn bennaf gerrig gweddol lawn o fasau, o leiaf o ran Eryri. Adlewyrchir hyn mewn llawer o'r planhigion sy'n tyfu yma, yn arbennig y bryoffytau (mwsoglau a llysiau'r afu), sydd at ei gilydd yn blanhigion calchgar (maent yn hoffi calch).

Fodd bynnag, dengys y planhigion ar y brigiad fod i fetelau cyffredin ddylanwad llawer cryfach ac mae'n debyg bod hyn yn deillio yn bennaf o ganrifoedd o galch/morter sydd wedi diferu allan o'r gwaith maen. Mae hyn ynddo'i hun yn gwneud y safle yn eithaf diddorol. Nododd ysgrifenwyr yr adroddiad restr drawiadol o fryoffytau yn tyfu yma, yn arbennig ar gerrig mwy digysgod y brigiad. Mewn mannau eraill, rhywogaethau glaswellt cyffredin yw'r rhywogaethau llystyfiant amlycaf. Nid ydynt o ddiddordeb mawr iawn ac maent yn dangos bod y glaswellt yn cael ei dorri yn rheolaidd.

O ran botaneg, fodd bynnag, mae'r casgliad o blanhigion yn un cyffredin, er bod rhai rhywogaethau anarferol wedi'u darganfod yn y gorffennol, y nodwyd un ohonynt yn unig y tro hwn. Y rhywogaeth honno oedd môr-wynwyn creigiog (Spergularia rupicola) sy'n tyfu'n eithaf toreithiog y tu allan i fur gorllewinol y castell ei hun. Ceir y planhigyn hwn fel arfer ar glogwyni môr ac rwy'n amau bod ei bresenoldeb yma, yn annodweddiadol o bell o'r môr, yn

adlais o'r adeg pan oedd y môr yn agosach at y castell nifer o ganrifoedd yn ôl. Byddai'n drueni colli'r planhigyn hwn trwy fynd ati yn rhy frwdfrydig i lanhau muriau'r castell.

Ardal arall o ddiddordeb yr ymwelwyd â hi oedd y darn corslyd gwlyb o dir i'r gogledd o'r castell wrth waelod y brigiad y mae'n sefyll arno, lle y cafwyd casgliad braf o rywogaethau, er na chafwyd unrhyw rywogaethau prin yn eu plith. Mae'r cynefin hwn dan fygythiad o ganlyniad i bobl yn cael gwared â sbwriel yno, yn arbennig gwastraff gardd a thoriadau coed.'

Ni chofnodwyd unrhyw adar nac anifeiliaid o bwys gan yr ecolegydd ac roedd o'r farn bod adroddiadau bod ystlumod yn clwydo ar y safle yn ôl pob tebyg yn anghywir.

Er y gellir torri'r lleiniau glaswellt gwastad o amgylch y castell, y dull arferol o reoli'r tir yw caniatáu i nifer o ddefaid bori ar graig y castell. Mae'r darn corslyd o dir y cyfeiriwyd ato wrth waelod rhaeadr o'r graig. Mae'n bosibl bod y sbwriel y cyfeiriwyd ato yn dod o safle carafannau cyfagos.

H1.3.3 Tirwedd Hanesyddol

Saif Castell Harlech o fewn tirwedd o bwysigrwydd hanesyddol eithriadol ar ochr orllewinol Mynyddoedd Rhinog (Ardal Ardudwy yng *Nghofrestr Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru*: Cadw, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac ICOMOS-UK, 1998).

Mae'r dirwedd yn cynnwys olion archeolegol helaeth, gan gynnwys morlin coedwig suddedig Morfa Dyffryn, beddau siambr o'r cyfnod Neolithig, henebion angladdol a defodol o'r Oes Efydd, ffyrdd cynhanesyddol, bryngaerydd o'r Oes Haearn, aneddiadau a systemau caeau o'r Oes Haearn a'r Oesoedd Canol, ystadau boneddigion sy'n dyddio o'r cyfnod ar ôl yr Oesoedd Canol, tiroedd seneddol a thystiolaeth o fwyngloddio a chwarelu.

Tra bod y tirweddau mewndirol yn parhau i fod yn wledig, gwelwyd llawer o newidiadau i'r tir arfordirol. Mae llawer o ddatblygiadau tai yn agos at y ffordd arfordirol a pharciau carafannau â mynediad i'r traeth ar y Morfa — y llwyfandir arfordirol. Mae tai ychwanegol hefyd wedi'u hadeiladu ar dir uchaf Harlech, yr unig dref yn yr ardal.

H1.4 Diddordebau

H1.4.1 Perchenogaeth a Chyfrifoldeb Gofal

Mae Castell Harlech yn heneb gofrestredig, yn adeilad rhestredig Gradd I ac yn rhan o Safle Treftadaeth y Byd.

Mae'r rhydd-ddaliad yn eiddo i'r Goron, ynghyd â ffos y castell a rhannau o graig y castell. Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros ofalu amdano i Cadw, un o asiantaethau gweithredol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Pe bai'r defnydd a wneir o'r castell gan y llywodraeth yn dod i ben yn y dyfodol, câi'r eiddo ei ddychwelyd i Ystad y Goron.

Safle Treftadaeth y Byd

1.4.2 Economi a Thwristiaeth

Demograffi, diwylliant ac economi

Mae tua 293,000 o bobl yn byw yn yr ardaloedd llywodraeth leol hynny y mae Safle Treftadaeth y Byd wedi'i leoli ynddynt — Ynys Môn, Gwynedd a Chonwy.

Mae'r amgylchedd naturiol amrywiol a safonol yn cynnwys Parc Cenedlaethol Eryri, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn ac arfordir treftadaeth penodedig hir ac amrywiol. Mae dwysedd y boblogaeth yn isel, gyda gostyngiad diweddar ym mhoblogaeth Ynys Môn ac ymfudiad mewnol i Gonwy. Mae'r ardal yn meddu ar hunaniaeth ddiwylliannol gref sy'n gysylltiedig â'r defnydd o'r Gymraeg a thraddodiad arforol ac amaethyddol ond mae tensiynau amgylcheddol a diwylliannol yn bodoli o ganlyniad i'r pwysau i ddatblygu. Mae crynoadau sylweddol o amddifadedd lluosog yn y trefi yn yr ardal tra bod yr ardaloedd mwyaf llewyrchus wedi'u clystyru ar hyd yr arfordir rhwng Afon Menai a Bae Conwy.

Mae'r economi amrywiol yn cynnwys twristiaeth, gwasanaethau, gweithgynhyrchu ac amaethyddiaeth. Ychydig iawn o weithgaredd a welir o ran y diwydiannau echdynnu llechi a metalau a fu mor bwysig yn y gorffennol.

Twristiaeth yw'r diwydiant mwyaf bellach. Mae'n dibynnu ar y dirwedd naturiol a hanesyddol ac fe'i cynorthwyir gan nifer fawr o atyniadau ac amrywiol fathau o lety. Mae gweithgareddau twristiaeth ddiwylliannol yn cynnwys tua 3.5 miliwn o ymweliadau dros nos yng Nghymru bob blwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys ymweliadau a ysgogir yn bennaf gan dwristiaeth ddiwylliannol a'r rhai sy'n rhan o daith gwyliau. Mae llawer o'r twristiaid hyn yn ymweld â gogledd-orllewin Cymru fel rhan o'u hymweliad.

Twristiaeth Ddiwylliannol

Cyhoeddodd Bwrdd Croeso Cymru *Cyflawni Ein Potensial — Strategaeth Twristiaeth Ddiwylliannol i Gymru* yn 2002 gyda'r amcan strategol allweddol, 'Mabwysiadu dull cynaliadwy o ddatblygu twristiaeth sydd o fudd i'r gymdeithas a chymunedau lleol ac sy'n gwella amgylchedd ac asedau diwylliannol unigryw Cymru.' Dilynwyd hyn gan *Strategaeth Twristiaeth Ddiwylliannol i Gymru* yn 2003.

Y gweithgaredd mwyaf poblogaidd o ran twristiaeth ddiwylliannol yw ymweld â safleoedd treftadaeth (cestyll, eglwysi, tai hanesyddol, henebion). Mae safleoedd treftadaeth yn denu teuluoedd, y rhai y mae eu teuluoedd wedi tyfu i fyny a phobl sydd wedi ymddeol yn gynnar. Mae'r farchnad yn tueddu at y grwpiau economaidd-gymdeithasol uwch.

Ers tro byd bu cestyll yn elfen bwysig wrth ddenu ymwelwyr a dengys cyfraddau boddhad yn deillio o arolygon yn 2000–01 fod bron 90% o'r rhai a ymwelodd â chestyll yng Nghymru yn fodlon ar eu hymweliad o ran y mwynhad a gawsant ohono, tra bod 80% yn fodlon ar y 'gwasanaeth a dderbyniwyd'.

Safle Treftadaeth y Byd

Mae'r cestyll a muriau'r trefi yn Safle Treftadaeth y Byd i gyd ymhlith yr atyniadau mawr yng ngogledd-orllewin Cymru. Maent yn cyfrannu gryn dipyn at yr economi leol trwy gynyddu'r galw am drafnidiaeth, llety, gwasanaethau arlwyo, siopau a gwasanaethau eraill. Maent hefyd yn cefnogi atyniadau eraill ac yn manteisio arnynt trwy gyfrannu at y profiad gwyliau a ddarperir o fewn yr ardal.

Mae Cadw yn eu rheoli o fewn yr ystad sydd o dan ei ofal fel atyniadau ymwelwyr ar gyfer twristiaid a thrigolion mewn ffyrdd sy'n gyson â'r saith egwyddor ar gyfer datblygu twristiaeth yn gytbwys a nodir gan ICOMOS-UK yn y ddogfen *Statement of Principles for the Balanced Development of Cultural Tourism*:

1. Mae i'r amgylchedd werth cynhenid, sy'n bwysicach na'i werth fel ased twristiaeth. Ni ddylid peryglu'r mwynhad o'r amgylchedd gan genedlaethau'r dyfodol na'i barhad yn yr hirdymor er mwyn ystyriaethau byrdymor.
2. Dylid cydnabod bod twristiaeth yn weithgaredd cadarnhaol a allai fod o fudd i'r gymuned yn ogystal ag i'r ymwelydd.
3. Mae'n rhaid rheoli'r berthynas rhwng twristiaeth a'r amgylchedd fel y gellir ei chynnal yn yr hirdymor. Ni ddylid caniatáu i dwristiaeth niweidio'r adnodd, peryglu'r mwynhad a geir ohono yn y dyfodol na chael unrhyw effeithiau annerbyniol.
4. Dylai gweithgareddau a datblygiadau twristiaeth barchu graddfa, natur a chymeriad y man y'u lleolir.
5. Mewn unrhyw leoliad, mae'n rhaid ceisio sicrhau bod anghenion yr ymwelydd, y lle a'r gymuned leol yn cyd-fynd â'i gilydd.
6. Mewn byd deinamig mae'n anochel y bydd rhywfaint o newid a gall newid yn aml fod yn fanteisiol. Fodd bynnag ni ddylid ymaddasu i newidiadau ar draul unrhyw un o'r egwyddorion hyn.
7. Mae'n ddyletswydd ar y diwydiant twristiaeth, awdurdodau lleol ac asiantaethau amgylcheddol i gyd barchu'r egwyddorion uchod ac i weithio gyda'i gilydd i sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni'n ymarferol.

Dros y blynyddoedd mae Cadw wedi comisiynu arolygon ymhlith ymwelwyr i ddarparu gwybodaeth ar gyfer ei gynlluniau marchnata ar gyfer yr ystad. Am fod Safle Treftadaeth y Byd yn cynnwys pedair o'r henebion â'r nifer uchaf o ymwelwyr lle y codir tâl mynediad, mae nifer o arolygon ar gael ar gyfer cestyll Biwmares, Caernarfon, Conwy a Harlech.

Faint o Ymwelwyr?

Dangosir nifer blynyddol yr ymweliadau â Safle Treftadaeth y Byd o 1986 i 2004 yn Nhabl 1.4.2 ac â'r pedwar castell yn Niagram 1.4.2. Bu gostyngiad o ryw 15% yn nifer yr ymweliadau dros y cyfnod hwn. Dengys cofnodion ar gyfer y pedwar castell i ymweliadau â Chaernarfon a Harlech ostwng 21%, Biwmares 20% a Chonwy 12%.

Ddeng mlynedd cyn y cyfnod hwn ym 1976, gwnaed dros filiwn o ymweliadau â'r pedwar castell. Erbyn diwedd y cyfnod bu gostyngiad o ryw 50% yn nifer yr ymweliadau. Mae hyn yn cymharu â gostyngiad o 37% ar gyfer ymweliadau â'r holl eiddo yng ngofal Cadw.

Mae'r newidiadau yn y farchnad wyliau yn effeithio ar yr ymweliadau â'r prif henebion yn ardaloedd gwyliau traddodiadol Cymru. Yn y 1970au roedd nifer o deuluoedd yn mynd ar eu gwyliau i Ogledd Cymru. Heddiw, er mai ardal wyliau ydyw o hyd, mae bellach yn fwy o gyrchfan gwyliau byr a theithiau dydd. Mae'r henebion hynny gerllaw'r priffyrdd a'r trefi yn fwy deniadol i'r ymwelwyr hyn. Yn arbennig, gwelwyd gwelliant i hygyrchedd Conwy yn sgîl adeiladu twnnel Conwy ar yr A55 wrth i hyn ryddhau strydoedd cul y dref rhag traffig ac annog yr awdurdodau i wneud gwelliannau sylweddol o fewn y muriau. Mae Safle Treftadaeth y Byd yn hynod ddeniadol i'r rheini sydd â diddordeb mewn hanes a thirwedd. Cânt eu denu i'r holl henebion yn y safle ac maent yn fwy tebygol o ymweld â'r henebion mwy pellennig.

Tabl 1.4.2

Ymwelwyr â Henebion o fewn Safle Treftadaeth y Byd yn y blynyddoedd ariannol 1986–2004

Blwyddyn	86–87	87–88	88–89	89–90	90–91	91–92	92–93	93–94	94–95
Ymweliadau	651,536	672,146	666,223	600,517	670,542	577,941	583,320	564,379	545,385
Blwyddyn	95–96	96–97	97–98	98–99	99–00	00–01	01–02	02–03	03–04
Ymweliadau	546,293	586,365	571,521	551,457	505,425	475,678	493,590	478,068	533,390

Gan fod mynediad agored i waelod muriau'r dref yng Nghaernarfon a Chonwy ac i rannau o rodfeydd y muriau yng Nghonwy, ni cheir cofnod o nifer yr ymwelwyr â'r henebion hyn ond mae nifer o ymwelwyr â'r cestyll yn debygol o ymweld â rhan o furiau'r dref.

Pwy sy'n ymweld â Safle Treftadaeth y Byd?

Er bod y ffigurau'n amrywio'n eang o flwyddyn i flwyddyn, yn y mwyafrif o flynyddoedd daw dros hanner yr ymwelwyr o gartrefi yn Lloegr, gyda chyfran ychydig yn uwch yn dod yn ystod tymor yr haf. Mae tua chwarter yr ymwelwyr yn dod o dramor, gyda chyfran uwch yn dod yn ystod y gaeaf. Mae cyfran lawer llai o ymwelwyr yn dod o'r Alban a Gogledd Iwerddon, tra bod llai nag 20% o'r ymwelwyr yn dod o Gymru yn y mwyafrif o flynyddoedd. Daw nifer gymharol fach o ymwelwyr o'r cymunedau lleol, er bod gan bob un o'r henebion drefniadau yn caniatáu i drigolion ymweld â hwy heb dalu tâl mynediad.

Mae dosbarthiad yr ymwelwyr ar draws Safle Treftadaeth y Byd yn amrywio'n eang hefyd ond Castell Caernarfon sy'n tueddu i ddenu'r mwyafrif o'r ymwelwyr o Loegr ac o dramor. Mae'r ffaith bod Castell Conwy yn hawdd ei gyrraedd o gefnffordd yr A55 yn helpu i wneud y castell hwnnw'n boblogaidd gydag ymwelwyr o Loegr.

Tanlinellir y ffaith bod pob un o'r henebion ar y safle wedi'i leoli mewn un o ardaloedd pwysicaf y DU fel cyrchfan gwyliau gan y gyfran uchel iawn o ymwelwyr sy'n ymweld â'r henebion ym mis Awst a mis Medi tra eu bod ar wyliau — fel arfer mwy nag 80% o'r holl ymwelwyr yn ystod y misoedd hynny.

Er bod y mwyafrif o'r ymwelwyr sy'n ymateb i arolygon yn bobl 35–54 oed, sef y blynyddoedd pan fydd pobl yn magu teuluoedd, sy'n ymweld â'r henebion yn ystod yr haf, anaml y mae'r gyfran hon yn llawer mwy na 50%. Am fod llawer yn dod â theuluoedd ifanc, mae nifer y plant sy'n ymweld â'r henebion yn uchel. Mae hyn yn arbennig o wir yng Nghastell Harlech, a leolir mewn ardal sy'n boblogaidd gyda theuluoedd fel cyrchfan gwyliau. Mae cyfran yr ymatebion a dderbynnir gan bobl iau (16–34) yn codi yn y gaeaf — mewn rhai blynyddoedd i fwy na hanner — tra bod cyfran y bobl hŷn (55 oed a throsodd) yn gostwng yn ystod yr adeg dawel o'r flwyddyn. Yn ystod yr haf mae pobl hŷn yn ffurfio 15% i 25% o'r ymwelwyr.

Yn fras, mae Safle Treftadaeth y Byd yn tueddu i ddenu mwy na dwy ran o dair o'i ymwelwyr haf ac 80% o'i ymwelwyr gaeaf o bobl yn y grwpiau galwedigaethol hynny sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol, rheolwyr, gweithwyr technegol ac o bobl mewn grwpiau galwedigaethol sy'n gofyn am sgiliau mwy hyfedr — a daw lleiafswm o'r ymwelwyr sy'n bobl llai medrus neu heb unrhyw fedrau. Yn gyffredinol mae cestyll canoloesol yn tueddu i ddenu pobl sydd â mwy o incwm i'w wario, mwy o amser hamdden a chefndir addysgol ehangach.

Er bod y mwyafrif llethol o'r ymwelwyr yn siaradwyr Saesneg fel eu hiaith gyntaf, mae tua 6% yn nodi mai Cymraeg yw eu hiaith gyntaf.

Mae gan gyfran fach o'r rhai sy'n ymweld â'r safle anableddau neu anghenion arbennig — hyd at 20% yng Nghastell Caernarfon ac o dan 10% mewn mannau eraill. Mae'n debyg bod nifer y bobl yn y grŵp hwn nad ydynt yn ymweld â'r safle oherwydd anawsterau tybiedig yn uwch.

Natur yr Ymweliadau

Cafodd arolwg mwy manwl o ystad Cadw a wnaed yn ystod haf 2001 213 o ymatebion gan ymwelwyr â Safle Treftadaeth y Byd. Roedd y sampl hon yn rhy fach i ganiatáu dadansoddiad ystadegol manwl dibynadwy ond darparodd rai dangosyddion.

Roedd 40% o'r rhai a ymatebodd yn ailymweld â'r un safle. Mynegodd o leiaf 80% ddiddordeb mewn cestyll a safleoedd hanesyddol a 60% yn niwylliant neu hanes Cymru.

Ymddiddorai ymwelwyr eraill mewn mynd i weld golygfeydd yn gyffredinol, teithiau undydd ac atyniadau a fyddai o ddiddordeb i blant. Cynlluniwyd y mwyafrif o'r ymweliadau ar y diwrnod neu yn ystod yr wythnos flaenorol, a pharodd yr ymweliadau o un i dair awr.

Teithiodd 90% o'r ymwelwyr yn y car, mewn fan neu ar feic modur. Gellir cyrraedd Harlech a Chonwy ar y trên, tra cafodd Caernarfon fwy o ymwelwyr a gyrhaeddodd ar y bws. Mae Conwy hefyd yn manteisio ar ei lle yn rhwydwaith bysiau ardal Llandudno. Mae beicwyr a cherddwyr yn lleiafswm bychan iawn.

Clywodd dros 80% o'r ymatebwyr am yr henebion drwy gyhoeddusrwydd, gweithgarwch hysbysebu neu wybodaeth o Ganolfan Croeso. Y prif ffynonellau gwybodaeth eraill oedd ymweliadau blaenorol, argymhellion a gwybodaeth leol.

Profiadau Ymwelwyr

Holodd arolwg 2001 ymwelwyr ynghylch eu profiad hefyd. Ar raddfa naw pwynt (lle y dynodai 9 'eithriadol o ddiddorol a difyr') dosbarthodd pob ymatebydd ei ymweliad o 4 i 9 ac roedd dwy ran o dair o'r ymatebion wedi'u dosbarthu o 7 i 9.

Holwyd ymwelwyr ynghylch eu hoffterau a'u casbethau yn seiliedig ar eu hymweliad.

Hoff nodweddion yr henebion oedd eu diddordeb hanesyddol, eu pensaernïaeth a'r ffordd gydymdeimladol yr oeddynt yn cael eu diogelu. Tynnwyd sylw at y golygfeydd o'r môr a'r mynyddoedd yn edrych o'r tri chastell ar y tir mawr, yn ogystal â llonyddwch Biwmares.

Y cyfleusterau mwyaf ffafriedig oedd y rhai a ddarparai wybodaeth am y safle, yn arbennig arddangosfa glyweled *Yr Eryr a'r Ddraig*, y siop a'r Amgueddfa Gatrodol yng Nghaernarfon a modelau o'r cestyll a'u lleoliadau.

Croesawodd yr ymatebion i'r modd y rheolid yr henebion y gwaith cynnal a chadw o safon ym mhob un o'r pedwar castell, y rhyddid i grwydro ac ansawdd y gwasanaeth.

Er i fwy na chwarter yr ymwelwyr ddatgan, yn dilyn eu hymweliad, nad oedd unrhyw beth nad oeddynt wedi'i hoffi, roedd rhai o'r farn bod mynediad a grisiau yn codi problemau yng Nghonwy a Harlech tra beirniadwyd glendid y ffos ym Miwmares.

Y farn oedd nad oedd digon o wybodaeth, bod yr arwyddion yn wael ac nad oedd siop anrhegion a theithiau tywys ym Miwmares; bod toiledau cyhoeddus gwael dan reolaeth yr awdurdod lleol islaw'r ganolfan croeso yng Nghonwy; a bod diffygion o ran gwybodaeth ym mhob un o'r henebion.

Beirniadwyd y mynediad cyfyngedig i'r rhodfeydd mur ym Miwmares ac roedd pryderon ynghylch diogelwch yng Nghonwy a Harlech.

Y ceisiadau mwyaf cyffredinol am gyfleusterau oedd am gaffis a mwy o ddigwyddiadau o fewn y cestyll ac am wybodaeth fwy dehongliadol. Er bod ymatebwyr yn gwerthfawrogi ansawdd y tywyslyfrau a gyhoeddir gan Cadw, roedd rhai ohonynt o'r farn eu bod yn rhy ddrud ar gyfer y mwyafrif o ymwelwyr a gofynnodd nifer o'r ymatebwyr am i daflenni a chynlluniau gael eu cynnwys yn y tâl mynediad.

O ran gwerth am arian (ar raddfa naw pwynt) rhoddodd llai na 5% o'r ymatebwyr lai na 4 pwynt, tra rhoddodd bron 80% o 7 i 9 pwynt.

Awgrymai arolwg 2001 fod lefel eithaf uchel o foddhad ymhlith ymwelwyr. Awgrymai hefyd fod galw am wasanaethau arlwyo ar y safle — nad ydynt ar gael ar hyn o bryd yn yr un o'r henebion. Ar wahân i anawsterau ymarferol o ran lleoli caffis o fewn y cestyll, nid yw hyn yn awgrymu bod rhai ymwelwyr yn ystyried bod yr henebion yn endidau hunangynhwysol ac nad ydynt yn ymchwilio i'r lleoedd bwyta yn y trefi. Arfer Cadw ers tro byd fu peidio â chystadlu â chaffis lleol, lle y maent ar gael – fel sydd yn y pedair tref hon. Anfonodd sylwadau ar fynediad i'r safleoedd a diogelwch negeseuon cymysg. Mae rhai ymwelwyr o'r farn ei bod yn drueni cyfyngu ar fynediad i dramwyfeydd mur â pharapedau isel (e.e. ym Miwmares a Harlech) tra bod eraill am weld rhagor o oleuadau mewn lleoedd tywyll a rhagor o ganllawiau i gwtogi ar risg.

Y Ffactor 'Troi'n Ôl'

Mae dulliau sefydledig o ganfod ymatebion y rheini sy'n ymweld â henebion. Nid yw mor hawdd canfod pam nad yw darpar ymwelwyr yn ymweld â'r safleoedd. Gallant gael eu troi'n ôl wrth ddynesu at y safle neu wrth y fynedfa. Yn 2001 comisiynodd Cadw ymgynghorwyr i asesu'r broblem hon ac i ymchwilio i werthiannau wrth y fynedfa. Ymwelwyd â phob un o'r pedwar castell yn Safle Treftadaeth y Byd a lluniwyd adroddiadau ar eu hymweliadau â'r safleoedd. Cynhwyswyd dau o'r cestyll — Caernarfon a Harlech — yn eu hadroddiad terfynol, lle yr ychwanegwyd dadansoddiad ffotograffig ac argymhellion at yr adroddiadau ar yr ymweliadau â'r safle.

Ni chafodd yr ymgynghorwyr fawr ddim problemau o ran y ffordd ddynesu at Gastell Biwmares. Cafwyd bod y dref yn ddeniadol, bod yr arwyddion yn glir, bod y meysydd parcio'n 'gyfleus', a'i bod yn hawdd dod o hyd i'r fynedfa. Felly deilliai'r problemau yn bennaf o swyddfa docynnau annigonol ychydig y tu mewn i fynedfa'r safle. Amcangyfrifodd yr ymgynghorwyr fod 10–15% o ymwelwyr yn troi'n ôl cyn prynu tocyn. Roedd y ceidwaid o'r farn bod hyn yn deillio o bris cymharol uchel o'i ystyried yn erbyn cyllidebau teuluol ond awgrymodd yr ymgynghorwyr fod y swyddfa docynnau annigonol 'yn ei gwneud yn anodd i'w werthu'n iawn'.

Nododd yr ymgynghorwyr ragor o broblemau yng Nghastell Caernarfon. Nid oedd gan y ffyrdd i mewn i'r dref ddigon o arwyddbyst ac roedd y meysydd parcio naill ai'n ddrud neu ymhell i ffwrdd. Ar ben hynny roedd yn anodd dod o hyd i'r ffordd ddynesu at y castell, yn rhannol am na ellid gweld y fynedfa ym Mhorth y Brenin yn glir o'r Maes . Ystyrid bod y ciosg tocynnau, a leolir yn y porth, yn cyfyngu ar nifer y tocynnau a werthir oherwydd ei leoliad a'i gynllun. Roedd yr ymgynghorwyr o'r farn bod 15% o'r ymwelwyr posibl yn cael eu troi yn ôl oherwydd y ffactorau hyn. Fodd bynnag methodd llawer mwy â chyrraedd y porth.

Er bod digon o arwyddbyst ar y priffyrdd i mewn i Gonwy ac er bod y castell yn amlwg iawn, roedd yr ymgynghorwyr o'r farn bod ymwelwyr yn ei chael yn anodd i ddod o hyd i'r ganolfan ymwelwyr. Ar ben hynny tynnwyd sylw at y graffiti a'r fandaliaeth helaeth yn y dref. Beirniadwyd cynllun y ganolfan ymwelwyr ond ystyrid bod nifer yr ymwelwyr a drodd yn ôl cyn prynu tocyn yn isel.

Mae problemau arbennig yn gysylltiedig â dod ag ymwelwyr i Gastell Harlech a chydnabuwyd hyn gan yr ymgynghorwyr. Roeddynt o'r farn bod gan y ffyrdd dynesu o'r de ddigon o arwyddion ond nad oedd cymaint o arwyddion ar y ffyrdd dynesu o'r gogledd. Am resymau yn ymwneud â rheoli traffig yn dda deuir ag ymwelwyr i'r meysydd parcio wrth droed y graig, ac oddi yno maent yn dringo llethr hynod anodd i'r pen trwy giosg mynediad a ddefnyddir yn ystod y tymor prysur. Cyrhaeddir y brif fynedfa ar y graig trwy strydoedd cul iawn.

Roedd yr ymgynghorwyr o'r farn bod y ganolfan ymwelwyr yn Harlech yn rhy fach ac nad oedd yn debygol o ddenu ymwelwyr. Ni fyddai Cadw am weld adeilad mwy ymosodol wedi'i leoli o flaen y castell. Nid amcangyfrifodd yr ymgynghorwyr y ffactor troi'n ôl ar gyfer Harlech. Mae'n debyg ei fod yn eithaf uchel oherwydd y dryswch a achosir gan y ffaith bod dwy fynedfa i'r castell. Byddai'r cynnig ar gyfer rheilffordd halio yn y dref i gysylltu'r ddwy lefel yn ddeniadol i ymwelwyr pe gellid datrys problemau cynllunio a chynllunio prosiect ymarferol.

Yn eu sylwadau cyffredinol argymhellodd yr ymgynghorwyr y dylid darparu arwyddion mwy cyson ar gyfer traffig a cherddwyr, mwy o hyfforddiant i staff ar werthu tocynnau a thywyslyfrau ar gyfer staff y safleoedd a datganiad clir ynglŷn â'r hyn y gallai ymwelwyr ei ddisgwyl ym mhob heneb — arddangosfeydd, siop a sioe glyweled lle y bo hynny'n briodol — y tu allan i'r man gwerthu tocynnau.

Roedd sylwadau'r ymgynghorwyr yn werthfawr fel barn annibynnol ond gwnaeth llawer o'r cyfyngiadau yn gysylltiedig ag archeoleg a pherchenogaeth y tir a chyfyngiadau ffisegol eu sylwadau yn llai defnyddiol.

Diagram 1.4.2 **Ymwelwyr â Safle Treftadaeth y Byd 1986–2004**



	1986–87	1987–88	1988–89	1989–90	1990–91	1991–92	1992–93	1993–94	1994–95	1995–96	1996–97	1997–98	1998–99	1999–00	2000–01	2001–02	2002–03	2003–04
Biwmares	99,912	105,590	113,217	98,421	101,444	86,366	87,245	92,833	88,156	87,354	84,069	80,291	79,471	77,060	73,769	76,049	67,342	79,673
Caernarfon	247,108	259,906	305,239	274,311	282,160	229,852	228,599	213,956	208,435	202,972	230,590	219,177	211,691	183,726	175,836	170,939	175,890	194,970
Conwy	197,099	192,895	130,494	120,970	178,720	175,542	180,532	174,646	167,241	173,857	184,489	191,952	178,603	162,739	152,092	166,155	159,325	174,303
Harlech	107,417	113,755	117,273	106,815	108,815	86,181	86,944	82,944	81,553	82,110	87,217	80,101	81,217	81,692	73,981	80,447	75,507	85,300

Pwysigrwydd Ymchwil i'r Farchnad
Er bod ymchwil i'r farchnad yn gwneud cyfraniad pwysig at y cynllun rheoli ar gyfer Safle Treftadaeth y Byd, mae'n rhaid cydbwyso anghenion y cyhoedd sy'n ymweld â'r safle ag ymrwymiadau eraill — i gadwraeth, i ddiogelu'r safle, i ymchwil ac addysg — ac ni ellir ei blaenoriaethu'n ddiamod.

1.4.3 Safle Treftadaeth y Byd a'r Gymuned

Mae gan lawer o sefydliadau ddiddordeb yn Safle Treftadaeth y Byd oherwydd ei gysylltiadau hanesyddol a diwylliannol; ei bresenoldeb ffisegol a'i effaith ar y pedair tref furiog; a'i bwysigrwydd i dwristiaeth a'r economi. Mae i rai o'r sefydliadau hyn berspectif cenedlaethol tra bod rhai eraill yn sefydliadau rhanbarthol neu leol. Mae rhai yn edrych ar Safle Treftadaeth y Byd o safbwynt arbenigwr ac mae gan eraill ddiddordeb mwy cyffredinol. Felly ni all fod unrhyw farn gymunedol unigol.

Wrth baratoi'r Cynllun Rheoli, ymgynghorwyd â sefydliadau cymunedol mewn gwahanol ffyrdd. Sefydlodd Cadw a'r awdurdodau lleol Grŵp Llywio i reoli'r broses a chyfrannu safbwyntiau gan y llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol. Cynhaliodd y Grŵp Llywio arolwg o sefydliadau â diddordeb yn Safle Treftadaeth y Byd trwy'r post — derbyniwyd 33 o ymatebion gan 27 o sefydliadau, sef 40% o'r sefydliadau hynny a wahoddwyd. Darparodd staff rheoli a cheidwaid Cadw wybodaeth ychwanegol a gafwyd gan eu cysylltiadau â diddordebau lleol a thrafodwyd nifer o faterion penodol gyda sefydliadau arbenigol priodol. Rhoddwyd gwybod i'r cwnstabliaid a'r dirprwy gwnstabliaid, sy'n cynrychioli'r Goron, a rhydd-ddeiliad Castell Biwmares, am y datblygiadau diweddaraf. Gellir crynhoi prif ganfyddiadau'r ymgynghoriadau hyn fel a ganlyn.

Ymwybyddiaeth
Roedd cyfran uchel iawn o sefydliadau yn ymwybobol bod y chwe heneb yn rhan o un Safle Treftadaeth y Byd. Ychydig o sefydliadau a ymddiddorai ym mhob un o'r henebion. Ymddiddorai'r mwyafrif mewn un yn unig.

Yr Henebion a'u Lleoliadau
Roedd cyfran uchel o'r farn bod yr adeiladwaith hanesyddol yn cael ei gadw mewn cyflwr da ac nad oedd eu lleoliad wedi'i niweidio gan ddatblygiadau amhriodol ers dynodi Safle Treftadaeth y Byd. Er bod cryn dipyn o amrywio rhwng y trefi, dim ond hanner a ystyriai fod eiddo yn y dref at ei gilydd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Roedd cyfran uwch o'r farn bod y dref yn darparu lleoliad addas ar gyfer Safle Treftadaeth y Byd.

Mynediad i Safle Treftadaeth y Byd
Roedd tri chwarter o'r ymatebwyr o'r farn ei bod yn gyfleus cyrraedd y safle yn y car, ar y bws ac mewn coets. Er bod mwy na hanner o'r farn ei bod yn gymharol hawdd mynd â theithwyr ag anableddau i'r safle a'u casglu yn y car, roedd llai na hanner o'r farn ei bod yn hawdd i yrwyr anabl gyrraedd y safle a pharcio. Ni chredai cyfran uchel o'r ymatebwyr fod y mynediad i feicwyr yn gyfleus, yn bennaf am mai prin oedd y lleoedd lle y gellid gadael beic yn ddiogel.

Mynediad a Diogelwch o fewn Safle Treftadaeth y Byd
Roedd cyfran uchel o'r ymatebwyr o'r farn y gallai person cadarn o gorff ymweld â digon o'r henebion i werthfawrogi eu diben gwreiddiol a'r modd y'u cynlluniwyd ac y'u hadeiladwyd. Fodd bynnag mae darparu mynediad diogel i'r rhodfeydd mur yn dal i fod yn fater dadleuol. Yn gyffredinol roedd yn well gan yr ymatebwyr rwystrau ac arwyddion anymwthgar na

mynediad cyfyngedig. Roedd yr ymatebwyr wedi'u rhannu'n gyfartal o ran eu barn ynglŷn a mynediad i'r rhai sy'n gorfod defnyddio cadeiriau olwyn neu ffyn. Bydd gofynion cyfreithiol yn mynnu mynediad cyfartal o 2004 ond mae'r ddeddfwriaeth yn mynnu mai dim ond 'addasiadau rhesymol' a wneir, term sy'n anodd iawn ei ddiffinio ar gyfer henebion. Mae Cadw yn gosod arwyddion rhybuddio safonol â chynlluniau newydd. Roedd y mwyafrif o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy o'r farn bod y rhain yn effeithiol ac yn anymwthgar.

Rheoli Ymwelwyr a Gwasanaethau i Ymwelwyr

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr o'r farn bod ymwelwyr yn cael eu croesawu yn yr henebion hynny lle'r oedd staff ar y safle a bod y staff yn wybodus ac yn barod eu cymwynas. Ar ben hynny credai'r mwyafrif fod gwybodaeth am oriau agor, taliadau a chyfleusterau yn ddigonol. Cafodd cyfran uchel fod gwybodaeth ddehongliadol ddigonol o fewn yr henebion. Roedd lleiafswm o'r farn bod y toiledau yn y cestyll neu'n agos atynt yn ddigon da a'u bod yn cael eu cadw'n dda a chafodd lleiafswm ei bod yn anodd eu defnyddio — naill ai oherwydd grisiau neu am nad oeddynt ar agor cyhyd â'r henebion.

Canmolodd cyfran uchel o'r ymatebwyr y tywyslyfrau a gynhyrchir gan Cadw. Gwnaethant hefyd sylwadau ffafriol ar y siopau sydd wedi'u darparu yn y tri chastell ac ar leoedd bwyta yn y pedair tref.

Cytunodd tri chwarter nad oedd nifer yr ymwelwyr yn ddigon uchel i erydu gwaith maen hanesyddol.

Prisio

Ystyriai mwy na hanner yr ymatebwyr fod prisiau mynediad, cyhoeddiadau a chofroddion yn rhesymol.

Digwyddiadau

Roedd y 39 o ddigwyddiadau a gynigiwyd yn 2003 yn cynnwys ailgreu sefyllfaoedd hanesyddol, adrodd storïau, cerddoriaeth a drama. Roedd dros hanner yr ymatebwyr o'r farn eu bod yn ychwanegu at brofiad yr ymwelwyr a'u bod yn denu ymwelwyr a thwristiaid lleol ychwanegol. Hoffai'r holl ymatebwyr weld rhagor o ddigwyddiadau yn cael eu trefnu.

Hyrwyddo

Roedd lleiafswm sylweddol o'r ymatebwyr yn feirniadol o'r cyhoeddusrwydd a ddarperir gan Cadw, Bwrdd Croeso Cymru a chwmnïau twristiaeth lleol. Roedd hyd yn oed mwy o'r farn nad oedd y teledu, y radio a'r wasg yn sôn am storïau diddorol am Safle Treftadaeth y Byd.

Y Manteision i'r Ardal

Roedd yr ymatebwyr yn ymwybodol o'r gostyngiad cyffredinol yn nifer y twristiaid sydd wedi bod yn ymweld â'r ardal yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Roeddynt wedi'u rhannu'n gyfartal neu roeddynt yn ansicr o ran y rhan a chwaraeir gan Safle Treftadaeth y Byd wrth arafu'r gostyngiad hwn. Cytunodd cyfran uchel fod ymwelwyr â Safle Treftadaeth y Byd yn dwyn manteision i'r ardal trwy dreulio amser a gwario arian yn y trefi. Roedd ychydig o dan hanner o'r farn bod Safle Treftadaeth y Byd yn hybu balchder a diddordeb lleol ond roedd llawer o ymatebwyr eraill yn ansicr. Roedd y mwyafrif llethol o blaid y cynnig bod rhoi mynediad am ddim i'r mwyafrif o grwpiau addysgol yn darparu adnodd gwerthfawr ar gyfer ysgolion a cholegau yn yr ardal a myfyrwyr o fannau eraill.

Er na ddarparodd nifer yr ymatebion a gafwyd i bob cwestiwn atebion a oedd o bwys ystadegol ym mhob achos, rhoddodd yr arolwg syniad bras o farn y gymuned a nododd feysydd lle y gellir cynyddu'r manteision i'r gymuned a gwella cysylltiadau cymunedol.